



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Asesiad Effaith Rheoleiddiol  
a'r Nodiadau Esboniadol

Mehefin 2013



# **BIL LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU)**

## **Memorandwm Esboniadol i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn wreiddiol, cafodd ei baratoi a'i osod ym mis Tachwedd 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 26.6, ac mae'r Memorandwm diwygiedig hwn bellach yn cael ei osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) a gyflwynwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, fel yr oedd bryd hynny, ar 26 Tachwedd 2012, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **Lesley Griffiths AC**

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth  
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

11 Mehefin 2013



# Cynnwys

## **RHAN 1 – TROSOLWG**

|   |   |    |
|---|---|----|
| 1 | Disgrifiad  | 4  |
| 2 | Y cefndir deddfwriaethol                              | 5  |
| 3 | Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael | 6  |
| 4 | Ymgynghori  | 16 |
| 5 | Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth                         | 18 |
| 6 | Asesiad Effaith Rheoleiddiol                          | 22 |

## **RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH**

|    |                          |    |
|----|--------------------------|----|
| 7  | Opsiynau                 | 23 |
| 8  | Costau a buddion         | 33 |
| 9  | Aseu'r Gystadleuaeth     | 38 |
| 10 | Adolygu ar ôl gweithredu | 39 |

## **RHAN 3 – ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB** 40

## **RHAN 4 – ASESIAID O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG** 41

## **ATODIAD A – NODIADAU ESBONIADOL** 42

## **ATODIAD B – ARGYMHELLION O ADOLYGIAD MATHIAS** 55

# RHAN 1 – TROSOLWG

## 1 Disgrifiad

1. Bwriedir i ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ddiwygio trefniadaeth a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.
2. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a strwythur pwyllgorau archwilio yr awdurdodau lleol.
3. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â mynediad y cyhoedd at wybodaeth o ran cynghorau tref a chymuned.
4. Mae'r Bil yn diwygio Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol greu cyd-bwyllgorau safonau.
5. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaeth Cadeirydd neu Faer prif gynghorau.
6. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gallu awdurdodau lleol i hyrwyddo neu wrthwynebu biliau preifat.
7. Mae'r Bil yn galluogi pwyllgor safonau mewn awdurdod penodol i ystyried achosion a gyfeiriwyd ato gan bwyllgor safonau arall.
8. Mae'r Bil yn cael gwared ar y cyfyngiad sy'n rhwystro pobl a gyfetholwyd ar bwyllgorau neu is-bwyllgorau rhag medru cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell.
9. Mae'r Bil hefyd yn addasu ac yn cydgrynhoi'r darpariaethau cyfredol ar lywodraeth leol mewn perthynas â'r Comisiwn Ffiniau ac mae felly'n hybu datblygiad Llyfr Statud Cymreig.

## 2 Y cefndir deddfwriaethol

10. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer Llywodraeth Leol, ac mewn perthynas â hi, o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Amlinellir y darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006 yn adran 108 ac Atodlen 7.
11. Amlinella Paragraff 12 o Atodlen 7 y pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt, o dan y pennawd "*Local Government*", i wneud darpariaeth yn un o Ddeddfau'r Cynulliad ar gyfer trefniadau etholiadol awdurdodau lleol a phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion. Atgynhychir Atodlen 7, pwnc 12 o Ddeddf 2006 isod. Nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw.

### **12 Local government**

Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.

"Local authorities" does not include police authorities.

#### *Exceptions –*

Local government franchise.

Electoral registration and administration.

Registration of births, marriages, civil partnerships and deaths.

Licensing of sale and supply of alcohol, provision of entertainment and late night refreshment.

Anti-social behaviour orders.

Local land charges, apart from fees.

Sunday trading.

Provision of advice and assistance overseas by local authorities in connection with carrying on there of local government activities.

12. Mae hyn yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad i wneud darpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Nid oes yr un o ddarpariaethau'r Bil yn dod o fewn unrhyw un o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 nac yn gymwys fel arall o ran Cymru nac yn rhoi, yn gosod, yn addasu nac yn tynnu swyddogaethau (neu'n rhoi'r pŵer i roi, i osod, i addasu nac i dynnu swyddogaethau) sy'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru; nac yn torri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7 – gan roi sylw i unrhyw eithriad o'r cyfyngiadau hynny yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

### 3 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

13. Amcan cyffredinol y Bil yw sicrhau bod democratiaeth leol yn gweithredu mor effeithlon â phosibl a gwella'r broses ddemocrataidd o fewn llywodraeth leol. Bwriedir iddo sicrhau bod awdurdodau lleol yn gynrychioliadol o'u cymunedau mewn modd democrataidd, yn cael eu trefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn cyfathrebu'n dda â'r cyhoedd. Bydd craffu lleol cadarn yn ddull effeithiol o ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn golygu y gall y cyhoedd gael mwy o hyder yn y broses ddemocrataidd.

#### 3.1 Gwella'r dull o gyflawni rolau a swyddogaethau statudol

14. Ceir nifer o bwyllgorau a chyrrff statudol yng Nghymru y mae eu cylch gwaith yn cynnwys llywodraeth leol, gan ymdrin â meysydd megis:

- Strwythur daearyddol a rhifyddol cynghorau;
- Craffu ar weithgarwch cynghorau a gweithredoedd cynghorwyr unigol;
- Pennu'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr.

Canfuwyd nifer o broblemau syn rhwystro'r cyrrff hyn rhan gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac mae'r Bil hwn yn cynnig cyfle i ddiwygio'r fframweithiau statudol y maent yn gweithio oddi fewn iddynt er mwyn ymdrin â'r materion hyn. Isod, nodir y materion a ganfuwyd a'r newidiadau a gynigir ar wahân ar gyfer pob corff a phwyllgor.

#### Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

15. Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ('y Comisiwn') ym 1974 o dan ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972"). Ei brif swyddogaeth yw adolygu strwythur pob un o ardaloedd prif gynghorau Cymru (y 22 cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol) a gwneud cynigion i Weinidogion Cymru ynghylch y nifer briodol o gynghorwyr ym mhob ardal a dosbarthiad eu hadrannau etholiadol. Gelwir yr adolygiadau hyn fel arfer yn adolygiadau etholiadol. Mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth i'r Comisiwn wneud hyn o fewn cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau ddeng mlynedd wedi'r adolygiad blaenorol o'r cynghorau hynny.
16. Adolygwyd pob cyngor yn y pum mlynedd yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. O ganlyniad, dechreuodd y cyfnod adolygu ar gyfer rhai cynghorau yn 2006. Cytunodd y Comisiwn, fodd bynnag, i ohirio dechrau'r ymarfer hwn tan ar ôl etholiadau 2008 ac i gwblhau'r adolygiadau cyn etholiadau 2012.
17. Dechreuodd y Comisiwn gyhoeddi'r adroddiadau drafft yn 2009. Daeth yn amlwg nad oedd y Comisiwn, wrth geisio cyflawni ei nod cyffredinol o sicrhau, i'r graddau mwyaf posibl, bod niferoedd cyfartal o etholwyr ar gyfer pob cynghorydd, wedi ystyried i ba raddau y byddai eu hanallu i dorri ar draws ffiniau cymunedau yn effeithio ar y broses o lunio eu cynigion. O ganlyniad i'r holl



ymatebion negyddol a gafwyd i'r adroddiadau drafft, ni lwyddodd y Comisiwn i gadw at ei amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiadau. O ganlyniad, roedd yna bosibilrwydd y byddai etholiadau 2012 yn cael eu cynnal gyda rhai siroedd a bwrdeistrefi sirol wedi'u newid yn helaeth ac eraill wedi'u gadael yn ddigyfnewid. Roedd yna nifer o enghreifftiau hefyd o wallau gweinyddol a gwallau drafftio yn rhai o'r adroddiadau drafft a gyhoeddwyd.

18. Ym mis Mawrth 2010, mewn ymateb i bryderon am y materion hyn, penododd Llywodraeth Cymru Glyn Mathias, a fu'n gwasanaethu ar y Comisiwn Etholiadol am gryn amser, i gynnal adolygiad ('Adolygiad Mathias'<sup>1</sup>) i ymchwilio i raglen adolygiadau etholiadol y Comisiwn. Canfu Adolygiad Mathias fod y Comisiwn, wrth gynnal ei raglen adolygiadau etholiadol, wedi colli cefnogaeth llywodraeth leol a Gweinidogion Cymru ac nad oedd bellach felly yn addas at y diben. Cyflwynodd Mathias nifer o argymhellion (gweler Atodiad B) ynghylch diwygio'r Comisiwn a'i arferion, yn ogystal â chynnig diwygio'r rheolau ar gyfer cynnal adolygiadau etholiadol. Byddai'n rhaid cyflwyno newidiadau deddfwriaethol er mwyn gweithredu argymhellion Mathias.
19. Ar 25 Ionawr 2012 cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Ddatganiad Ysgrifenedig mewn ymateb i argymhellion Mathias, a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ddeddfu fel y bo'n briodol. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r newidiadau a gyflwynir gan y Bil er mwyn gweithredu'r argymhellion hynny.

#### *Enw a strwythur y Comisiwn*

20. Mae'r Bil yn newid enw'r Comisiwn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, fel cydnabyddiaeth o'r ffaith ei fod yn adolygu'r nifer briodol o gynghorwyr a'u dosbarthiad mewn perthynas â nifer yr etholwyr, yn ogystal â'r ffiniau etholiadol.
21. O dan ddarpariaethau Deddf 1972, mae'r Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at dri aelod arall, ac mae ganddo gworwm o ddau. Mewn gwirionedd, dim ond tri aelod o'r Comisiwn sydd wedi bod ers cyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei greu ym 1997. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn amhriodol i ddau aelod yn unig wneud penderfyniadau pwysig ynghylch adolygiadau neu reoli'r Comisiwn. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â hyn drwy gynyddu'r cworwm i dri. Pump yw'r terfyn uchaf o hyd ar gyfer maint y Comisiwn, felly gellid penodi aelodau atodol pe bai Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod hynny'n briodol. Gallai hynny ddigwydd, er enghraifft, lle bo'n glir na ellid sicrhau cworwm fel arall, megis mewn achos lle bo Comisiynydd yn methu bod yn bresennol am unrhyw reswm, a hynny'n rheolaidd.
22. Cyflwynwyd Deddf 1972 cyn i'r Gymraeg gael gwarchodaeth ddeddfwriaethol sylweddol ac o ganlyniad mae'n darparu bod o leiaf un aelod o'r Comisiwn yn siarad Gymraeg. Caiff aelodau'r Comisiwn eu penodi yn unol â chynllun iaith

---

<sup>1</sup> THE MATHIAS REVIEW – An Independent Review into the electoral reports and electoral review processes as conducted by the Local Government Boundary Commission for Wales. (Mehefin 2011) <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/mathiasreview/?lang=cy>

Gymraeg Llywodraeth Cymru <sup>2</sup> ('y cynllun iaith') ac, yn y dyfodol, Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus.

23. Caiff Gweinidogion Cymru benodi personau eraill i gynnig cyngor arbenigol i'r Comisiwn o dan amgylchiadau penodol, mewn perthynas â chynnal ymchwiliadau lleol er enghraifft. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r Comisiwn sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pryd y bydd angen personau o'r fath arno, felly mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn allu penodi a thalu personau i gynnig cyngor arbenigol. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penodi arbenigwr.

#### *Cylch Gwaith y Comisiwn*

24. Mae nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar wahân i gynghorau hefyd yn cynnwys cynghorwyr etholedig neu unigolion a benodir gan gynghorau yn eu strwythurau. Ym marn Llywodraeth Cymru byddai'n fanteisiol cael corff annibynnol a fyddai'n gallu adolygu a gwneud cynigion mewn perthynas â chyfansoddiad cyrff o'r fath. Bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru enwi cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru y mae eu strwythur yn cynnwys cynghorwyr etholedig neu unigolion a benodir gan gynghorau, fel rhai a fydd yn destun adolygiad gan y Comisiwn.

#### *Swyddogaethau'r Comisiwn*

25. **Adolygiadau ffiniau:** adolygiadau gan y Comisiwn yw'r rhain o'r ffiniau rhwng dwy neu fwy o brif ardaloedd (ardaloedd cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol). Yn dilyn y rhain gall y Comisiwn gynnig newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol (prif gyngor, cyngor cymuned neu gymuned) y mae'n eu hystyried yn ddymunol er mwyn sicrhau bod llywodraeth leol yn gweithredu'n effeithiol ac yn hwylus.
26. Ni fydd y Bil yn newid dyletswyddau presennol y Comisiwn o gynnal adolygiadau ond bydd yn darparu, pa bryd bynnag y bo'r Comisiwn yn awgrymu newid i ardaloedd llywodraeth leol, bod yn rhaid iddo hefyd ystyried gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol (hynny yw nifer a dosbarthiad y cynghorwyr o fewn ardal sirol).
27. O dan y Bil, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ddilyn trefn ymgynghori benodol ar ei gynigion cyn cyhoeddi adroddiad i Weinidogion Cymru. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r adroddiad drafft ar ei wefan a darparu copiâu caled i Weinidogion Cymru, yr ymgynghoreion gorfodol a'r prif gyngor/cynghorau y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt. Rhaid rhoi gwybod i unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth yn ystod yr adolygiad bod yr adroddiad drafft wedi'i gyhoeddi a ble y gellir ei weld.

---

<sup>2</sup> Cynllun Iaith Gymraeg 2011 – 2016, cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011. Gallwch weld y manylion yn [www.cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/?lang=cy](http://www.cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/?lang=cy)

28. Os bydd unrhyw addasiadau yn effeithio ar ffiniau ardal heddlu rhaid i'r Comisiwn hysbysu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref a all, drwy orchymyn, newid ffiniau'r ardal heddlu fel eu bod yn cyd-fynd â'r ffiniau sirol diwygiedig.
29. **Adolygiadau trefniadau etholiadol:** mae hyn yn cyfeirio at y broses o ystyried nifer y cynghorwyr o fewn pob prif ardal a'u dosbarthiad o fewn adrannau etholiadol. Ar hyn o bryd, mae dyletswydd ar y Comisiwn i gynnal adolygiadau trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o fewn dim llai na deng mlynedd a dim mwy na phymtheg mlynedd ers yr adolygiad blaenorol. Yn dilyn adolygiad etholiadol mae'r Comisiwn yn gwneud cynigion i Weinidogion Cymru, a gaiff wneud gorchymyn mewn ymateb i'r cynigion.
30. Mae'r Bil yn disodli'r amserlen deng i bymtheg mlynedd ac yn rhoi cylch parhaus deng mlynedd o adolygiadau etholiadol yn ei le. Mae'r Bil hefyd yn darparu na cheir cyhoeddi adroddiad terfynol yn ystod y cyfnod o naw mis cyn diwrnod etholiadau lleol arferol er mwyn sicrhau y gellir gweithredu unrhyw newidiadau mewn da bryd cyn unrhyw etholiad sydd ar y gweill.
31. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried y dylai pob cynghorydd mewn prif ardal gynrychioli, mor agos â phosibl, yr un nifer o etholwyr. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn hefyd ystyried pennu ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod ac sy'n ystyried clymau cymunedol lleol. Mae'r Bil yn ceisio ei gwneud yn glir bod y ddau nod hyn yr un mor bwysig.
32. Mae Deddf 1972 yn atal y Comisiwn rhag cynnig adrannau etholiadol sydd o boptu i ffiniau cymunedau. Ym marn Llywodraeth Cymru gall hyn lesteirio'r Comisiwn yn ei awydd i wneud cynigion sy'n sicrhau, mor agos â phosibl, bod y gymhareb o gynghorwyr i etholwyr yn gyfartal. Mae'r Bil felly yn cael gwared ar y rhwystr hwn ac hefyd yn cynnig y caiff y Comisiwn gynnig newidiadau i ffiniau cymunedau fel rhan o adolygiad etholiadol, os yw'n teimlo bod hynny'n briodol.
33. Mae'r Bil yn pennu y bydd yn rhaid i'r Comisiwn, cyn cynnal adolygiad, egluro ei ddull o gyfrifo'r nifer briodol o gynghorwyr mewn prif gyngor, a chyhoeddi hynny fel rhan o'i ymgynghoriad cyn cynnal adolygiad etholiadol. Bydd gofyn i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru fel rhan o'r broses hon.
34. **Adolygiad o gymunedau:** mae'r adolygiadau hyn yn edrych ar ardaloedd cymunedau o fewn sir, a gallant wneud cynigion i newid ffiniau cymunedau, newid ffiniau etholiadol o fewn cymunedau, cyfuno cymunedau neu rannu cymunedau. Yn ogystal, os ceir cyngor cymuned, caiff yr adolygiad gynnig nifer briodol o gynghorwyr cymuned.
35. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r holl brif gynghorau adolygu ardaloedd eu cymunedau. Rhaid iddynt, o dan adran 122 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adrodd i'r Comisiwn o leiaf unwaith bob pymtheg mlynedd ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gwrdd â'r ddyletswydd hon i adolygu. Rhaid i'r adroddiadau cyntaf o'r fath, fodd bynnag, ddod i law'r Comisiwn erbyn mis Gorffennaf 2015. Gall cyngor ofyn i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'i gymunedau ar ei ran, os mai hynny yw ei ddymuniad, ac fe gaiff y Comisiwn godi tâl ar y prif gyngor am wneud hynny.

36. Bydd y Bil yn cryfhau'r gofyniad hwnnw i gynnal adolygiad gan olygu y bydd gofyn i brif gyngor adolygu ei ardaloedd cymunedol o leiaf unwaith bob deng mlynedd, a thalu sylw i amserlen y Comisiwn o adolygiadau etholiadol wrth ystyried yr amser priodol ar gyfer yr adolygiad o gymunedau. Bydd gan y Comisiwn bŵer hefyd i gynnal adolygiad o gymunedau a chodi tâl ar y prif gyngor am wneud hynny os yw'n credu nad yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i adolygu yn foddhaol. Byddai gan y Comisiwn bŵer hefyd i gyhoeddi canllawiau i'r prif gyngor ar amseriad a phroses yr adolygiadau ynghyd â'r egwyddorion i'w dilyn.
37. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn ystyried cynigion gan brif gynghorau ynghylch newidiadau i ardaloedd cymunedau yn eu hardaloedd. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud Gorchymyn er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Bydd y Bil yn newid y sefyllfa hon drwy roi'r pŵer i wneud gorchymynion i'r Comisiwn. Fodd bynnag, os mai'r Comisiwn sy'n cynnal yr adolygiad o ardaloedd cymunedol, neu'n argymhell newidiadau i ardaloedd awdurdod lleol, dylid cyfeirio'r cynigion hyn at Weinidogion Cymru, a fydd yn ystyried gwneud gorchymyn. Bydd prif gynghorau yn ogystal â'r Comisiwn yn medru gwneud newidiadau i ardaloedd etholiadol, ar yr amod fod y rheini'n deillio o newidiadau i ffiniau cymunedau a'u bod wedi cael caniatâd Gweinidogion Cymru.

#### *Cynnal adolygiadau*

38. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn er mwyn cynnig arweiniad iddynt wrth gynnal unrhyw fath o adolygiad. Ar hyn o bryd, mae yna ofyniad na ellir gwneud y cyfarwyddiadau hyn heb ymgynghori â chymdeithasau cynrychioliadol yr awdurdodau lleol yn gyntaf. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori hefyd â'r Comisiwn ei hun er mwyn sicrhau, cyhyd ag y bo hynny'n bosibl, y deallir ac y rhennir bwriadau polisi y cyfarwyddiadau.
39. Ar hyn o bryd mae gofyn i'r Comisiwn (a'r prif gynghorau os ydynt yn cynnal adolygiad o gymunedau), ymgynghori â'r personau a chanddynt fuddiant cyn cynnal unrhyw fath o adolygiad. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw awdurdod lleol y mae'r adolygiad yn effeithio arno, ynghyd ag unrhyw undeb staff sydd wedi gofyn am ymgynghoriad â hwy ac unrhyw un arall fel y gwêl y Comisiwn neu'r prif awdurdod yn dda. Er mwyn hwyluso'r broses o gasglu tystiolaeth yn effeithiol, bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn (a'r prif awdurdodau yn achos adolygiad cymunedau) fynnu bod cyngor yr ardal llywodraeth leol sy'n cael ei adolygu yn rhoi unrhyw wybodaeth iddynt sydd, yn eu barn hwy, yn berthnasol i'r adolygiad.
40. Mae dyletswydd ar y Comisiwn a'r prif gyngor i sicrhau bod y personau a chanddynt fuddiant yn cael gwybod am gynigion neu orchmynion drafft a ble y gellir edrych ar y dogfennau hynny. Mae'r Bil yn ymestyn y ddyletswydd hon i gynnwys darparu dogfennau ar ffurf electronig.
41. Bydd gofyn i'r Comisiwn, neu'r prif gyngor, hefyd ddisgrifio yn eu cynigion y camau a gymerwyd ganddynt i ymgynghori a sut y gwnaethant ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd.

42. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn neu'r prif gyngor sy'n cynnal adolygiad o unrhyw fath sy'n arwain at newid ardaloedd awdurdod lleol i roi gwybod i'r Arolwg Ordnans ac unrhyw bersonau neu sefydliadau eraill a allai gael eu rhagnodi gan Weinidogion Cymru, unwaith y caiff y newidiadau eu gwneud.
43. Nid yw pŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 60(6) o Ddeddf 1972 i ragnodi'r weithdrefn ar gyfer adolygiadau wedi'i ddefnyddio, felly nid yw'n cael ei ailddatgan yn y Bil, ac fe gaiff ei ddiddymu gan y Bil.

### **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

44. Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") o dan Reoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 ("y Rheoliadau") a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bu'n gweithredu o dan y Rheoliadau hynny.
45. Mae'r Panel yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ac fe'i sefydlwyd yn barhaol er mwyn penderfynu ar amrediad a lefelau'r lwfansau sy'n daladwy gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i'w cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.
46. Cafodd cylch gwaith y Panel ei ymestyn gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ('Mesur 2011'), i gynnwys aelodau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub Cymru a chynghorau cymuned a thref Cymru.
47. Bob blwyddyn rhaid i'r Panel gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r mathau o daliadau, ynghyd â'u lefelau, y mae'n rhaid i'r awdurdodau eu rhoi i'w haelodau ac aelodau cyfetholedig, neu y caniateir iddynt wneud hynny. Caiff y Panel ragnodi gwahanol symiau ar gyfer gwahanol gynghorau. Rhaid cynhyrchu pob Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. O dan Fesur 2011 rhaid i'r Adroddiad Blynyddol cyntaf gael ei gynhyrchu erbyn 31 Rhagfyr 2011 a dod i rym ar 1 Ebrill 2012. Caiff y Panel gynhyrchu Adroddiadau Atodol ar unrhyw bryd.
48. O dan Fesur 2011 mae'n rhaid i'r Panel ymgynghori â Gweinidogion Cymru, yr awdurdodau perthnasol a'r cyrff sydd â buddiant cyn cynhyrchu eu Hadroddiadau Blynyddol ac Atodol terfynol. Rhai i gyfnod o wyth wythnos o leiaf fynd heibio rhwng cyhoeddi adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol drafft a chyhoeddi'r fersiwn derfynol. Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Panel i ailystyried cynnwys adroddiad drafft. Rhaid i Weinidogion Cymru nodi eu rhesymau dros gyhoeddi'r cyfarwyddyd a phennu dyddiad ar gyfer ymateb. Nid oes yn rhaid i'r Panel addasu'r drafft, ond rhaid iddo ymateb a chynnig eglurhad os yw'n penderfynu peidio ei addasu.
49. Gosodir pob adroddiad a gynhyrchir gan y Panel ar wefan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Rhaid i'r Panel hefyd anfon copi o bob adroddiad a gynhyrchir ganddo at Weinidogion Cymru, yr awdurdodau perthnasol ac eraill sydd â buddiant.

50. Erbyn hyn mae gan y Panel brofiad o gynhyrchu ei adroddiad blynyddol cyntaf<sup>3</sup> o dan ofynion Mesur 2011 ac mae wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle mae'r gofynion hyn yn cyfyngu'n ormodol neu'n rhy feichus. Bydd y Bil yn diwygio Mesur 2011 er mwyn galluogi'r Panel i gyflawni ei ddyletswyddau yn fwy effeithlon ac effeithiol drwy:

- Rhoi'r opsiwn i'r Panel o osod terfyn rhifyddol ar y rheini sydd â'r hawl i daliadau rhagnodedig, yn ogystal â mynegi hynny fel cyfran o bob awdurdod.
- Rhoi'r pŵer i'r Panel allu dewis unrhyw ddyddiad ar gyfer dod â'u penderfyniadau i rym a gallu ôl-ddyddio unrhyw benderfyniadau ganddynt am gyfnod o hyd at dri mis cyn cyhoeddi adroddiad.
- Symud y dyddiad terfynol ar gyfer cyhoeddi adroddiad blynyddol y Panel o 31 Rhagfyr i 28 Chwefror ym mhob blwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd ar 1 Ebrill.
- Darparu bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer adroddiadau atodol yn cael ei leihau i gyfnod o rhwng pedair ac wyth wythnos, yn ôl disgrisiwn y Panel.

51. Mae Mesur 2011 hefyd yn galluogi'r Panel i fynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am y taliadau a dderbynnir gan gynghorwyr unigol, ond dim ond y taliadau hynny sy'n dod o fewn cylch gwaith y Panel. Yn adroddiad blynyddol 2011 y Panel, mynegodd y farn gref ei fod yn teimlo ei bod er lles y cyhoedd i gyhoeddi pob incwm a dderbynnir gan gynghorwyr mewn perthynas â'r swyddi cyhoeddus y maent yn eu dal yn rhinwedd eu gwaith fel cynghorwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hynny ac mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Panel fynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r gydnabyddiaeth a dderbynnir gan gynghorwyr unigol mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus.

52. Caiff y Panel benderfynu ynghylch y taliadau i aelodau'r awdurdodau perthnasol a restrir ym Mesur 2011 sef, ar hyn o bryd, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi cyrff cyhoeddus eraill y byddai'r Panel yn gyfrifol am benderfynu ar y taliadau i'w haelodau.

## **Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol**

53. Roedd Mesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor sefydlu pwyllgor archwilio gyda'r swyddogaethau a bennir yn y Mesur hwnnw. Yr awdurdod sy'n penderfynu ar aelodaeth y pwyllgor, a rhaid iddo sicrhau bod o leiaf ddwy ran o dair o aelodau'r pwyllgor yn gynghorwyr, a bod o leiaf un aelod yn aelod lleyg. Caiff yr awdurdod hefyd benderfynu rhoi un o'i swyddogion gweithredol (ond nid ei swyddog uchaf/arweinydd) ar y pwyllgor.

---

<sup>3</sup> Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Rhagfyr 2011 <http://wales.gov.uk/irpwsb/home/publication/201112/irpannreport111/?lang=cy>

54. Mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd â Mesur 2011 yn awgrymu y dylai awdurdod sicrhau bod aelodau'r pwyllgor archwilio sy'n gynghorwyr yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod hwnnw, ond nid oedd hynny'n ofyniad yn y Mesur. Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Leol wedi mynegi'r farn, fodd bynnag, mai'r arfer sefydledig yw penodi pwyllgorau cynghorau ar sail y cydbwysedd gwleidyddol, ac yn barnu y dylai fod yn ofyniad er mwyn osgoi trafodaeth barhaus ar y mater. Mae'r Bil yn diwygio Mesur 2011 er mwyn gosod y gofyniad hwn ar wyneb y ddeddfwriaeth.

### **Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd**

55. Roedd Mesur 2011 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sefydlu pwyllgor gwasanaethau democrataidd er mwyn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol o ddynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
- adolygu'n barhaus y staff, y llety a'r adnoddau eraill sydd ar gael i'r swyddog hwnnw, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer cyfrifoldebau'r swydd;
- cyflwyno adroddiadau i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r materion hyn.

56. Mae Mesur 2011 yn atal Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rhag cyflawni unrhyw swyddogaethau ac eithrio'r rheini y darperir ar eu cyfer yn y Mesur. Y bwriad polisi y tu ôl i'r ddarpariaeth hon oedd sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ei brif swyddogaethau. Bydd y Bil yn cael gwared ar y ddarpariaeth hon mewn ymateb uniongyrchol i'r pryderon a fynegwyd gan lywodraeth leol. Bydd gan y pwyllgorau yr hyblygrwydd i ystyried materion eraill y gellid eu hystyried yn gefnogol i aelodau a'u datblygiad, megis hyfforddi a datblygu, cyflwyno adroddiadau blynyddol, cydnabyddiaeth ariannol ac absenoldeb aelodau am resymau teuluol.

### **Pwyllgorau Safonau**

57. Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") a sefydlodd y fframwaith moesegol presennol sy'n hyrwyddo cadw at safonau ymddygiad cyson ymhlith aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gosod dyletswydd ar bob awdurdod perthnasol (at y diben hwn cyngor sir/bwrdeistref sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân ac Achub ac Awdurdod yr Heddlu) i sefydlu pwyllgor safonau.

58. Dyma swyddogaethau cyffredinol pwyllgorau safonau:

- Hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod;
- Cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod.

59. Heb ragfarnu ei swyddogaethau cyffredinol, mae gan bwyllgor safonau y swyddogaethau penodol canlynol:

- Cyngtori'r awdurdod ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio cod ymddygiad;
- Monitro'r modd y gweithredir cod ymddygiad yr awdurdod;
- Cyngtori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod ar faterion yn ymwneud â chod ymddygiad yr awdurdod.

60. Pwyllgor safonau'r cyngor sir/bwrdeistref sirol sy'n arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â'r cyngorau cymuned a thref o fewn ei ardal.

61. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n fuddiol i'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru gydweithio drwy sefydlu cyd-bwyllgorau safonau yn seiliedig ar 'Batrwm Cydweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus'. Dyma rai o'r manteision hynny:

- Helpu i oresgyn y problemau a welwyd mewn rhai ardaloedd o ran canfod pobl annibynnol addas i wasanaethu ar bwyllgorau safonau;
- Defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ac effeithiol a chynnig hyblygrwydd wrth ymdrin ag achosion honedig o beidio â chydymffurfio â'r cod ymddygiad;
- Osgoi achosion posibl o wrthdaro buddiannau a gwella hyder y cyhoedd yn y broses gwynion drwy greu pellter rhwng y pwyllgorau a'r achwynwyr / y rhai sy'n destun cwynion;
- Hwyluso dull cyson o ymateb i gwynion ledled Cymru, yn enwedig lle cymerir camau drwy brosesau datrys lleol;
- Hwyluso'r broses o rannu arferion da wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel.

62. Mae'r Bil yn diwygio Rhan III o Ddeddf 2000 i'w gwneud yn haws i awdurdodau lleol sefydlu cyd-bwyllgorau safonau at ddibenion cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf honno.

## 3.2 Hwyluso mynediad at wybodaeth

### Cyngorau Tref a Chymuned

63. Mae'n arferol i gyfran helaeth o'r boblogaeth erbyn hyn ddefnyddio'r rhyngwrdd, e-bost a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i gael gafael ar wybodaeth am eu hardaloedd lleol, canfod pa wasanaethau sydd ar gael a chysylltu â chyrrff cyhoeddus. Yn eu tro, mae cyrrff cyhoeddus yn cyhoeddi gwybodaeth am eu busnes, eu strwythur a'u swyddogaethau ar ffurf electronig, a hynny fel mater o drefn.

64. Canfu arolwg o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru<sup>4</sup> yn 2010 fod gan tua hanner y cynghorau wefan, sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â 2002 pan oedd y ffigur hwnnw'n llai nag un o bob pump. Mae hynny'n dal i feddwl, fodd bynnag,

<sup>4</sup> Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref 2010 (Rhif Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru: 07/2011)

<http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/research/commtcsurv1011/?lang=cy>



nad yw llawer o gymunedau yn gallu cael gafael ar wybodaeth am eu cynghorau drwy ddulliau cyfathrebu modern.

65. Er mai sefydliadau cymharol fach yw'r rhan fwyaf o gynghorau tref a chymuned, nid yw'n cael ei hystyried yn briodol bellach bod gwybodaeth am eu trafodion, mewn rhai achosion, ar gael ar ffurf copïau papur yn unig, ac ar hysbysfyrddau mewn gwahanol leoliadau yn yr ardal. Er mwyn bod yn berthnasol i fywydau eu hetholwyr, mae'n hanfodol bellach bod gwybodaeth am gynghorau cymuned a thref ar gael ar y Rhyngwrdd a'i bod yn bosibl cysylltu â hwy drwy'r e-bost.
66. Mae'r Bil yn darparu y dylai pob cyngor tref a chymuned, erbyn mis Mai 2015, ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei aelodau, a chofnodion ei drafodion ar y we. Yn ogystal dylai fod yn bosibl cysylltu â'r clerc, o leiaf, drwy'r e-bost. Nid yw'r Bil yn mynnu bod gan bob cyngor tref neu gymuned ei wefan ei hun. Yn aml, gallai fod yn bosibl i'r prif gyngor lleol, neu gorff sy'n cynrychioli aelodau, megis Un Llais Cymru, fod yn westeiwr i'r wefan. Mae'r Bil hefyd yn darparu y caiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y mater hwn.
67. Bydd gofyn i bob awdurdod lleol, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned, gyhoeddi'r gofrestr o fuddiannau eu haelodau yn electronig.

### 3.3 Gwella'r dull o Gadeirio Prif Gynghorau

#### **Cadeiryddion a Meiri Prif Gynghorau**

68. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") yn darparu bod prif gynghorau Cymru yn ethol Cadeirydd y cyngor ac yn penodi Dirprwy Gadeirydd yn flynyddol. Mae hefyd yn darparu y caiff y prif gynghorau sy'n gynghorau bwrdeistref sirol roi teitl Maer a Dirprwy Faer i'w Cadeirydd a'u Dirprwy Gadeirydd, yn y drefn honno. Yn achos Cynghorau Dinas Caerdydd ac Abertawe, mae'r Frenhines wedi rhoi'r hawl i'r cynghorau hynny ddefnyddio'r teitl Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer.
69. Mae rhai prif gynghorau eisoes wedi ceisio gwahanu swyddogaeth y pennaeth dinesig a swyddogaeth llywyddu cyfarfodydd y cyngor. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, y gallai gwahanu'r swyddogaethau yn y ffordd hon dorri'r gyfraith gyfredol a'r Uchelfraint Frenhinol mewn perthynas â'r cynghorau hynny y rhoddwyd yr hawl iddynt gael Arglwydd Faer.
70. Mae'r Bil yn darparu y caiff prif gyngor benderfynu penodi aelod gwahanol o blith ei aelodau i fod yn Aelod Llywyddol neu'n Ddirprwy Aelod Llywyddol o'r cyngor, os yw'r prif gyngor yn penderfynu ei bod yn briodol gwahanu swyddogaethau'r Maer/Cadeirydd a fydd yn cyflawni swyddogaethau dinesig yn unig a'r Aelod Llywyddol i lywyddu cyfarfodydd y Cyngor. Nid yw hyn yn effeithio mewn unrhyw fodd ar yr Uchelfraint Frenhinol er mwyn galluogi cadeirydd awdurdod lleol i gael ei ddynodi'n Arglwydd Faer gan y bydd swydd y cadeirydd yn parhau i fod yn un ddinesig/seremonïol.

## 4 Ymgynghori

### Y Papur Gwyn

71. Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011 fe ymrwymodd y Prif Weinidog i ymgynghori'n briodol ac ymgysylltu mewn modd ystyrlon â'n partneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Yn unol â'r datganiad hwnnw, ar 14 Mai 2012 fe gyhoeddodd yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Bapur Gwyn o'r enw "Hybu Democratiaeth Leol". Gellir ei weld yma:

<http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/promlocdemocracy/?lang=cy>

72. Gwahoddodd y Papur Gwyn sylwadau ar y materion oedd i'w cynnwys yn y Bil yn ystod cyfnod ymgynghori o 12 wythnos a ddaeth i ben ar 7 Awst. Daeth 91 o ymatebion i law, oddi wrth y mathau canlynol o sefydliadau:

|  |           |
|--|-----------|
| Prif Gyngorau  | 15        |
| Cyngorau Tref a Chymuned                                     | 35        |
| Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol                            | 3         |
| Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau'r Heddlu               | 2         |
| Sefydliadau'r Trydydd Sector/ Mudiadau Gwirfoddol            | 5         |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru                            | 1         |
| Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru                  | 1         |
| Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol             | 1         |
| Y Comisiwn Etholiadol  | 1         |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru                       | 1         |
| ACSeS  | 1         |
| SOLACE   | 1         |
| Un Llais Cymru   | 1         |
| Yr Arolwg Ordnans  | 1         |
| ACau   | 1         |
| Glyn Mathias   | 1         |
| Comisiynydd y Gymraeg  | 1         |
| Eraill (unigolion, cyngorwyr, gweinyddwyr etholiadol ac ati) | 19        |
| <b>Cyfanswm</b>  | <b>91</b> |

73. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r darpariaethau a gynigiwyd yn y Papur Gwyn yn gadarnhaol. Cynhwyswyd y rhan fwyaf o'r cynigion fel darpariaethau yn y Bil. Dyma'r unig eithriadau:

- Yr opsiwn i benodi aelod wrth gefn i'r Comisiwn, yn ôl y gofyn. Y brif ddadl a gyflwynwyd yn erbyn y cynnig hwn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y byddai'n anodd i aelod wrth gefn fod yn gyfarwydd a gwaith diweddaraf y Comisiwn. Mae'r ddarpariaeth wedi'i diwygio er mwyn adlewyrchu'r pryderon a fynegwyd. Mae'r Bil felly yn gwneud darpariaeth i benodi comisiynydd/comisiynwyr parhaol atodol os teimlir bod gofyn gwneud hynny.

- Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y ddarpariaeth i fanylion cyswllt, manylion aelodaeth, a chofnodion trafodion cynghorau tref a chymuned fod ar gael ar y rhyngwyd. Er mwyn rhoi mwy o amser i'r cynghorau, fodd bynnag, fe symudwyd y dyddiad ar gyfer dod â hyn i rym i fis Mai 2015.

74. Gellir gweld crynodeb cyhoeddedig o'r ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/promlocdemocracy/?skip=1&lang=en>

### **Ymgynghoriad Arall**

75. Cynhwyswyd llawer o'r cynigion mewn perthynas â'r Comisiwn yn Adroddiad Mathias, a gynhyrchwyd yn dilyn ymarfer casglu tystiolaeth ynglŷn â rhaglen y Comisiwn o adolygiadau etholiadol.

76. Mae'r darpariaethau yn y Bil hwn sy'n diwygio Mesur 2011 yn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd o du llywodraeth leol neu Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

## 5 Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

77. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os o gwbl.

## Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

| Adran  | Rhoddir y pŵer i                              | Ar ffurf   | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig  | Gweithdrefn           | Rheswm dros y weithdrefn   |
|--|---|------------|--|-----------------------|--|
| Adran 34(3)(e)<br><br>Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau                      | Gweinidogion Cymru                            | Gorchymyn  | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan ei fod yn fwriadol ddisgresiynol er mwyn cynnwys ymgynghoreion atodol ar gyfer rhai adolygiadau.   | Penderfyniad negyddol | Yn atgynhyrchu'r ddarpariaeth gyfredol.  |
| Adran 37(1)<br><br>Pŵer i wneud gorchymynion er mwyn gweithredu argymhellion | Gweinidogion Cymru                            | Gorchymyn  | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth yn gweithredu cynigion ond nid o fewn chwe wythnos wedi cynigion y Comisiwn.  | Dim gweithdrefn       | Offeryn statudol lleol yn unig, ac eithrio pan wneir newidiadau i brif sir neu sir wedi ei chadw. Os felly, y Weithdrefn Negyddol sy'n berthnasol. |
| Adran 38(1)<br><br>Pŵer i wneud gorchymynion er mwyn gweithredu argymhellion | Y Comisiwn                                    | Gorchymyn  | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan mai'r Comisiwn sydd â'r pŵer i weithredu cynigion awdurdod lleol.  | Dim gweithdrefn       | Offeryn statudol lleol yn unig.  |
| Adran 39(1) a (3)<br><br>Y trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau          | Prif Gyngorau                                 | Gorchymyn  | Yn briodol i'r awdurdod lleol gael y pŵer i wneud gorchymyn gan ei fod yn ymdrin ag effeithiau o fewn ardal awdurdod lleol.  | Dim gweithdrefn       | Offeryn statudol lleol yn unig.  |
| Adran 40(1) a (2)<br><br>Gorchymynion Gweithredu: darpariaethau canlyniadol  | Gweinidogion Cymru, Y Comisiwn<br>Prif Gyngor | Gorchymyn  | Wrth wneud gorchymyn i weithredu cynigion mae'n caniatáu ar gyfer cyflwyno newidiadau cysylltiedig, canlyniadol, ategol neu drosiannol, a'r hyn fyddai'r newidiadau hynny. | Dim gweithdrefn       | Offeryn statudol lleol yn unig.  |
| Adran 41(1)  | Gweinidogion                                  | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer rheoliadau.  | Penderfyniad          | Darpariaeth dechnegol  |

|  |  |            |  |   |  |
|--|--|------------|--|---|--|
| Pwerau canlyniadol a throsiannol             | Cymru  |            | Byddant yn rhoi manylion ynghylch cynnal adolygiadau yn unol â bwriad y Bil.   | negyddol (oni bai ei fod yn ychwanegu at unrhyw ddeddfiad, yn ei ddisodli neu'n ei hepgor – cadarnhaol) | nad yw'n cyflwyno polisi newydd.   |
| Adran 43(2)<br>Amrywio a dirymu gorchymynion | Gweinidogion Cymru<br>Y Comisiwn Prif Gyngor | Gorchymyn  | Darpariaeth i alluogi gweithredu pwerau awdurdodau i gywiro/ dirymu gorchymynion blaenorol.  | Dim gweithdrefn / gorchymyn lleol   | Offeryn statudol lleol yn unig.  |
| Adran 45(3)(a)<br>Newid ardaloedd yr heddlu  | Ysgrifennydd Gwladol                         | Gorchymyn  | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan y bydd y newid yn ddiwygiad canlyniadol yn dilyn adolygiad mwy i weithredu'r newidiadau i ardaloedd yr heddlu yn dilyn adolygiad.                | Yn amodol ar weithdrefn Seneddol  | Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchymynion.   |
| Adran 47(3)<br>Newid cwrs dŵr                | Gweinidogion Cymru                           | Gorchymyn  | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan y bydd y newid yn un canlyniadol lle bo'r ffin rhwng ardaloedd llywodraeth leol yn gwrs dŵr. Rhaid ymgynghori â'r Comisiwn cyn gwneud gorchymyn. | Dim gweithdrefn   | Offeryn statudol lleol yn unig.  |
| Adran 62<br>Taliadau i aelodau               | Gweinidogion Cymru                           | Gorchymyn  | Darpariaeth i addasu'r awdurdodau perthnasol o fewn cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.  | Penderfyniad negyddol   | Llywodraethir gan ddarpariaethau adran 172 (Gorchymynion a Rheoliadau) o Fesur 2011.   |
| Adran 66(3)<br>Cyd-bwyllgorau Safonau        | Gweinidogion Cymru                           | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion gweinyddol sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu bwriadau'r Bil.                                       | Penderfyniad negyddol   | Yn atgynhyrchu'r weithdrefn gyfredol, oni bai eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Os felly, y broses gadarnhaol sy'n berthnasol. |

---

|             |                       |           |  |   |                                   |
|-------------|-----------------------|-----------|--|---|-----------------------------------|
| Adran 68(1) | Gweinidogion<br>Cymru | Gorchymyn | Dros amser mae'n bosibl y bydd<br>gofyn diwygio'r ddeddfwriaeth. | Penderfyniad<br>negyddol (oni bai ei<br>fod yn ychwanegu at<br>unrhyw ddeddfiad, yn<br>ei ddisodli neu'n ei<br>hepgor – cadarnhaol) | Darpariaeth dechnegol yn<br>unig. |
|-------------|-----------------------|-----------|--|---|-----------------------------------|

---

## 6 Aseiad Effaith Rheoleiddiol

78. Cwblhawyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil. Mae'n dilyn yn Rhan 2, ac yn cynnwys aseiad costau a buddion.
79. Nid oes yna unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.



## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH

### 7 Opsiynau

80. Mae'r bennod hon yn cyflwyno tri gwahanol opsiwn o ran amcanion polisi'r Bil. Caiff pob un o'r opsiynau ei archwilio er mwyn gweld i ba raddau y gallai gyflawni amcanion y Llywodraeth, a beth yw'r risgiau. Amlinellir costau a manteision pob opsiwn ym Mhennod 8.

81. Dyma'r opsiynau:

- Opsiwn 1 – gwneud dim;
- Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd i fynd i'r afael â'r problemau;
- Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi.

### Diwygio'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

82. Byddai gwneud dim yn golygu bod y Comisiwn yn gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972). Ni châi rhai o argymhellion Adroddiad Mathias eu gweithredu, er bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi'u cefnogi'n gyhoeddus. Yn benodol:

- Byddai disgwyl i'r Comisiwn barhau i gynnal adolygiadau etholiadol rhwng deg a phymtheng mlynedd ar ôl yr adolygiad blaenorol. Gallai hyn arwain at ailadrodd y sefyllfa yn 2009-11 pan geisiodd y Comisiwn gwblhau'r adolygiadau o fewn amserlen afresymol o gaeth.
- Byddai cynigion y Comisiwn o ran nifer y cynghorwyr ym mhob awdurdod yn ymddangos am y tro cyntaf yn ei adroddiad ar ddiwedd yr adolygiad. (Dylid nodi nad oes, ar hyn o bryd, unrhyw ddisgwyl i'r Comisiwn baratoi adroddiad drafft.) Gallai hyn arwain at adwaith negyddol i'w cynigion unwaith eto yn y cyfnod terfynol, sef pan fo raid i'r Gweinidog wneud penderfyniad ar sail y cynigion.
- Byddai'r Comisiwn yn dal i gael ei atal rhag newid ffiniau cymunedau wrth gynnal adolygiadau etholiadol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Comisiwn i gynnig newidiadau i ffiniau adrannau etholiadol heb orfod cipio ardaloedd cymunedol cyflawn. Yn achos ymarfer 2009-11, tynnwyd sylw at y ffaith fod rhai ardaloedd etholiadol wedi ehangu'n sylweddol, a bod hynny'n arwydd o wendid yng nghynigion y Comisiwn. Ond yn ôl y Comisiwn, y cyfyngiad hwn oedd yn gyfrifol am hynny, i raddau helaeth.
- Câi'r Comisiwn ei atal rhag llunio gorchmynion i weithredu cynigion ar gyfer newid ardaloedd cymunedol a gyflwynir gan brif gynghorau. Byddai hyn yn golygu bod y sefyllfa fel y mae yn parhau, a bod rhaid i Weinidogion Cymru

lunio gorchmynion i weithredu unrhyw newidiadau, hyd yn oed os yw'r Comisiwn yn fodlon â'r cynigion.

83. Canlyniadau eraill gwneud dim fyddai:
- gadael enw'r Comisiwn fel y mae,
  - gadael i'r Comisiwn benderfynu a ddylai ymgynghori ar unrhyw gynigion, ac am ba gyfnod i wneud hynny,
  - rhwystro ehangu cylch gwaith y Comisiwn er mwyn iddo allu adolygu aelodaeth cyrff heblaw prif gynghorau neu gynghorau cymuned.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

84. O dan Ddeddf 1972 mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal adolygiad o ardaloedd llywodraeth leol mewn rhan o Gymru neu drwy'r wlad i gyd. Gallant hefyd roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn gynnal adolygiadau o ffiniau neu adolygiadau etholiadol. Gall y cyfarwyddiadau gynnwys darpariaethau yn ymwneud ag amserlen yr adolygiadau. Gall Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau yn nodi'r weithdrefn y dylai'r Comisiwn neu brif gyngor ei dilyn wrth gynnal adolygiad.
85. Mae'r pwerau hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu sut a phryd i gynnal adolygiadau. Er mwyn rheoli amseriad adolygiadau, byddai hyn yn golygu bod angen rhoi cyfarwyddiadau bob tro yr oedd adolygiad mawr ar fin cychwyn.
86. Ni fyddai'r pwerau hyn yn ddigon i newid methodoleg y Comisiwn o ran y ffordd y mae'n ymdrin â niferoedd cynghorwyr. Mae'n bwysig nodi na fyddai'n dileu'r cyfyngiadau ar addasu ffiniau cymunedau wrth gynnal adolygiadau. Ni fyddai'r broses o lunio gorchmynion cymunedol yn newid.

#### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

87. Mae cyflwyno'r Bil hwn yn golygu y gellir cyflawni argymhellion Mathias yn llawn. Mae'n creu cefndir newydd ar gyfer arferion y Comisiwn, mae'n cynyddu ei gyfrifoldebau ac yn newid ei enw. Mae hefyd yn golygu bod modd cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r Comisiwn yn y Llyfr Statud i Gymru.
88. Yn bwysicaf oll, bydd yn golygu y gellir creu fframwaith newydd o reolau y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth gyflawni ei ddyletswyddau, gan egluro ei swyddogaethau a'i ddulliau i'r Comisiwn ac i'w randdeiliaid, fel ei gilydd. Eglurir hefyd y cyfrifoldeb am gynnal adolygiadau o gymunedau a'r ffordd y caiff cyfrifoldebau eu rhannu rhwng prif gynghorau, y Comisiwn a Llywodraeth Cymru.
89. Mae'r ffaith fod y Bil yn egluro dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiwn yn golygu bod llai o risg o lawer o ailadrodd anawsterau ymarfer 2009-11. Dylai darpariaethau'r Bil arwain at gylch parhaus o adolygiadau etholiadol, a darparu hyblygrwydd newydd i'r Comisiwn wrth iddo ffurfio ffiniau newydd.
90. Mae caniatáu i'r Comisiwn newid ardaloedd cymunedol wrth gynnal adolygiadau etholiadol yn golygu bod risg y gallai eu cynigion fod yn annerbyniol i'r gymuned.

Mae'r rheolau newydd ar ymgynghori a gallu Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau terfynol yn gwrthbwysu hyn, fodd bynnag.

### Yr opsiwn a ffefrir

91. Dim ond Opsiwn 3 fydd yn galluogi'r Comisiwn i gynnal ei adolygiadau mewn ffyrdd a fydd yn llwyr gyflawni'r nod o sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hwylus. Bydd yn galluogi'r Comisiwn i ystyried yr angen am gydraddoldeb etholiadol a hefyd yn cydnabod cymunedau sy'n seiliedig ar leoliad ar yr un pryd.

## **Pwerau Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol**

### Opsiwn 1 – gwneud dim

92. Byddai gadael i'r Panel barhau i weithredu ar sail y cyfyngiadau deddfwriaethol presennol yn golygu bod arferion anghyfleus a thrwsgl yn parhau. Mae'r Panel wedi penderfynu cyfyngu ar nifer y swyddi sy'n gallu denu cyflogau uwch ym mhob prif gyngor, ond dim ond fel canran o gyfanswm y cynghorwyr ym mhob awdurdod y gall ddisgrifio'r terfynau hyn. Gan fod nifer yr aelodau etholedig yn amrywio o un awdurdod i'r llall, rhaid pennu canran wahanol ar gyfer pob un.
93. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, pan fydd y Panel am gyhoeddi adroddiad ategol, rhaid iddo ymgynghori ar fersiwn ddrafft am wyth wythnos, a gadael tri mis arall cyn i'w benderfyniadau ddod i rym. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r Panel yn delio ag un cais gan un awdurdod.
94. Yn yr un modd, rhaid i'r Panel ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'i adroddiad blynyddol am wyth wythnos cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol, a rhaid cyhoeddi'r adroddiad terfynol hwnnw cyn diwedd y flwyddyn galendr cyn y flwyddyn y daw'n weithredol. Fel arfer daw penderfyniadau'r Panel i rym ar ddechrau'r flwyddyn "Gyngor" ganlynol, sy'n cychwyn ym mis Mai. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu anfon adroddiad drafft erbyn diwedd mis Gorffennaf, ystyried unrhyw newidiadau yn ystod mis Hydref, a threfnu i'w gyfieithu a'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Bydd y gwaith o baratoi'r fersiwn ddrafft yn cychwyn ym mis Mehefin, fis yn unig ar ôl i ddarpariaethau adroddiad y flwyddyn flaenorol ddod i rym.
95. Yn olaf, ni fyddai unrhyw bosibilrwydd y gallai Gweinidogion Cymru ychwanegu at y cyrff cyhoeddus y gellid gwneud y Panel yn gyfrifol am ystyried eu tâl.

### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

96. Prin yw'r pwerau deddfwriaethol eilaidd sydd gan Weinidogion Cymru, o ran swyddogaethau'r Panel. Ceir pwerau o dan adran 149 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Mesur 2011) i roi cyfarwyddyd i'r Panel ailystyried penderfyniad. Yn ôl adran 155 o Fesur 2011 caiff Gweinidogion roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol atal taliadau i gynghorwyr. Gallant hefyd roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol gydymffurfio â phenderfyniad y Panel. Mae'r pŵer i lunio canllawiau ar gael i'r Panel, ond nid i Weinidogion Cymru.

97. Mae Adran 158 o Fesur 2011, fodd bynnag, yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu swyddogaethau'r Panel drwy orchymyn. Byddai gwneud hynny'n arwain at orchymyn cymhleth. Byddai'n rhaid dilyn y broses gadarnhaol. Nid oes unrhyw fantais amlwg i ddefnyddio deddfwriaeth ar wahân i gwblhau'r elfen hon o ddarpariaethau'r Bil.

### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

98. Mae angen deddfwriaeth er mwyn diwygio'r cyfyngiadau ar hyblygrwydd y Panel a geir ym Mesur 2011. Mae'r Bil yn ceisio dileu'r cyfyngiadau hyn. Bydd y darpariaethau yn symleiddio proses y Panel o osod terfynau ar nifer y taliadau y gall awdurdod eu gwneud, mewn ffordd a fydd yn golygu bod modd deall eu penderfyniadau yn glir.

99. Bydd y Bil yn caniatáu i'r Panel ymateb yn gyflymach nag a wna ar hyn o bryd i achosion a gyflwynir iddo gan lywodraeth leol, heb osgoi'r angen i ymgynghori. Bydd hefyd yn caniatáu i'r Panel ystyried canlyniadau ei adroddiad blaenorol cyn drafftio adroddiad y flwyddyn ganlynol.

100. Yn olaf, byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gwahodd y Panel i archwilio a newid trefniadau talu cyrff cyhoeddus eraill a nodir mewn gorchymyn, pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

101. Nid yw galluogi'r Panel i osod terfynau o ran rhif yn hytrach na therfynau cymesur ar y taliadau sydd ar gael i gynghorwyr yn cynyddu nac yn gostwng y risg, gan mai'r cyfan a wna'r ddarpariaeth yw caniatáu i'r Panel osgoi gorfod cyflwyno gwerth canrannol i bob awdurdod, gan fod gan bob awdurdod nifer gwahanol o gynghorwyr. Nid yw'n awgrymu y byddai'r terfynau cyffredinol ar nifer y taliadau yn newid.

102. Mae goblygiadau ehangach i'r newidiadau arfaethedig i'r amseriad. Wrth alluogi'r Panel i ymgynghori am gyfnod llai a dewis ei ddyddiadau ei hun ar gyfer dod â phenderfyniadau ei adroddiadau ategol i rym, mae risg y gallai wneud penderfyniad ar sail llai o dystiolaeth na'r hyn a fyddai ar gael iddo mewn cyfnod hwy. Mae'r ffaith nad yw'r Panel, ar hyn o bryd, yn gallu ymateb yn gyflym i newid mewn amgylchiadau neu geisiadau brys yn gwrthbwysu hyn, fodd bynnag, oherwydd ni all dyddiad ar gyfer dod i rym fod yn llai na thri mis ar ôl cyhoeddi adroddiad, ar hyn o bryd.

103. Mae'r ffaith fod angen gorchymyn Gweinidogol i roi grym i bŵer y Panel i wneud penderfyniadau ynghylch cyrff cyhoeddus ar wahân i'r rheini y mae'n gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd, yn rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â hynny.

### Yr opsiwn a ffefrir

104. Oni bai fod Opsiwn 3 yn cael ei fabwysiadu, ni fydd y Panel yn gallu ymateb yn brydlon i geisiadau unigol gan awdurdodau lleol. Mae ei ddiffyg hyblygrwydd yn sgil darpariaethau'r Mesur yn golygu bod angen ymdrin ag ymgynghoriadau ac amserlennu mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer adroddiadau blynyddol cenedlaethol, ond nid ar gyfer adroddiadau atodol penodol. Bydd gohirio dyddiad

cyhoeddi'r adroddiad blynyddol yn rhoi cyfle i benderfyniadau'r flwyddyn flaenorol sefydlu cyn cychwyn ar adroddiad y flwyddyn ganlynol.

## **Newidiadau i rai pwyllgorau cyngor**

### Opsiwn 1 – gwneud dim

105. Yn ôl Mesur 2011 rhaid i bob prif gyngor sefydlu Pwyllgor Archwilio, a rhaid i hyd at draean ei aelodau fod yn rhai lleyg. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn ymdrin â'r ffordd y dylid penodi aelodau sy'n gynghorwyr, ac mae'r methiant i ddeddfu ar y mater hwn yn golygu bod modd dehongli hyn mewn gwahanol ffordd.
106. Effaith swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a ddisgrifir yn adran 9 o Fesur 2011, yw atal swyddog sy'n adrodd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd rhag gwasanaethu pwyllgorau a benodir gan weithgor y cyngor. Mae gadael i'r sefyllfa hon barhau yn golygu na ellir defnyddio sgiliau swyddog yn effeithlon. Mae'n golygu na all clercod pwyllgor wasanaethu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gweithredol, fel y gwnânt ar hyn o bryd, ac y byddai angen swyddog arall i gyflawni'r swyddogaeth hon.
107. Mae'r gwaharddiad yn adran 16 o'r Mesur, sy'n atal y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rhag cyflawni unrhyw swyddogaethau ar wahân i'r rheini sy'n cael eu disgrifio yn y Mesur, yn rhwystro'r Pwyllgor rhag ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau eraill y gall awdurdod deimlo'u bod yn briodol. Gallai hyn fod yn gyfyngiad diangen ar roi cyfrifoldebau sy'n ymwneud yn fras â chefnogi cynghorwyr i'r Pwyllgor. Yn ôl y ddarpariaeth sydd yn y Mesur ar hyn o bryd, gellid dehongli bod cyfrifoldebau o'r fath y tu hwnt i'w gylch gwaith.

### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

108. Mae canllawiau a gyhoeddwyd eisoes o dan Fesur 2011 yn annog cynghorau i gydnabod cydbwysedd gwleidyddol wrth benodi aelodau o bwyllgorau archwilio. Yn ôl profiad blaenorol, gellir anwybyddu canllawiau fel hyn er mwyn ennill mantais wleidyddol, mewn rhai amgylchiadau. Mae cynrychiolwyr llywodraeth leol wedi gofyn inni egluro hyn drwy ddeddfwriaeth.
109. Ni ellir ymdrin â'r un o'r newidiadau i wasanaethau democrataidd a gynigir yn y Bil mewn canllawiau nac mewn deddfwriaeth eilaidd. Mae'r pwerau i gyhoeddi canllawiau ar swyddogaethau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn amodol ar y ddarpariaeth na ddylent arfer unrhyw swyddogaethau ar wahân i'r hyn sydd ym Mesur 2011.

### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

110. O ystyried bod rhaid i ddwy ran o dair o aelodau Pwyllgor Archwilio, o leiaf, fod yn gynghorwyr – ac mai cynghorwyr fydd pob un ond un o'r aelodau yn aml iawn – bydd dilyn rheolau yn ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol yn cyd-fynd â'r

gofynion arferol ar gyfer pwyllgorau eraill y cyngor (ar wahân i bwyllgorau ardal, wrth gwrs). Dyma arfer sy'n cael ei gydnabod ar draws y sbectrwm gwleidyddol.

111. Bydd diwygio'r ddeddfwriaeth ar swyddogaethau Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd a'r swyddogion sy'n cefnogi'r pwyllgorau hynny yn helpu awdurdodau lleol i reoli eu busnes heb lacio'r gofyniad i fodloni eu gofynion presennol.
112. Nid oes unrhyw risgiau amlwg yn gysylltiedig â mynnu bod aelodaeth Pwyllgorau Archwilio yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol, oni bai fod awdurdodau yn penderfynu mynd y tu hwnt i'r rheolau hyn drwy roi seddi i grwpiau'r gwrthbleidiau. Mae gan awdurdod bŵer o hyd i anwybyddu'r cydbwysedd gwleidyddol, fodd bynnag, os nad oes yr un aelod yn pleidleisio yn erbyn hynny.
113. Gellid ystyried bod y newidiadau arfaethedig i wasanaethau democrataidd yn golygu bod y Pwyllgor a'i swyddogion yn canolbwyntio llai ar yr angen i gefnogi cynghorwyr yn eu swyddi anweithredol. Nid yw unrhyw un o'r gofynion yn y Mesur ar Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd na'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddileu, fodd bynnag. Byddai'r darpariaethau yn caniatáu rhyw gymaint o hyblygrwydd, fel y mae llywodraeth leol ei hun wedi'i argymhell.

#### Yr opsiwn a ffefrir

114. Bydd Opsiwn 3 yn caniatáu i Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd weithredu mewn ffordd fwy hyblyg, ar yr amod eu bod yn ymdrin â materion sy'n dod o dan y pennawd bras o gynghori a chefnogi cynghorwyr yn unig. Mae caniatáu cydbwysedd gwleidyddol wrth benodi cynghorwyr i Bwyllgorau Archwilio hefyd yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â phwyllgorau eraill y cyngor.

### **Mynediad i wybodaeth – cynghorau tref a chymuned**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

115. Ymhen amser, mae'n debyg y bydd modd cysylltu â'r rhan fwyaf o gynghorau lleol yn electronig, ac y byddant yn sefydlu gwefan, a hynny'n syml yn sgil ethol aelodau a phenodi clerod sydd wedi arfer defnyddio dulliau electronig o weithio. Byddai'r dulliau traddodiadol o gadw cofnodion a sicrhau cyhoeddusrwydd yn achosi rhwystredigaeth iddynt. Yn ôl ymchwil a wnaed yn 2010, fodd bynnag, nid yw 50 y cant o gynghorau o'r fath ar y we<sup>5</sup> eto, sy'n awgrymu y gallai fod yn broses hirfaith.
116. Bydd methu â'i gwneud yn ofyniad cyfreithiol fod y cyhoedd y gallu dod o hyd i wybodaeth benodol am gyngor cymuned ar y we, a chysylltu â'r cyngor yn

---

<sup>5</sup> Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned 2010 (Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru Rhif: 07/2011)  
<http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/research/commtcsurv1011/?lang=cy>

electronig, o leiaf, yn golygu bod sefyllfa'n parhau lle nad yw rhywun sy'n byw mewn rhan benodol o Gymru sy'n gyfarwydd â delio â materion personol a materion busnes yn electronig, fel y mae llawer o bobl, yn mynd ati i ddysgu am y cyngor neu gysylltu â'r cyngor. Mae hyn yn golygu ei bod yn llai tebygol y bydd pobl o'r fath yn cymryd rhan mewn llywodraeth leol. Gallai'r rhain fod yn bobl o oedran gweithio neu ieuengach, neu'n bobl sy'n gaeth i'r tŷ neu'r gweithlu am lawer iawn o'u bywydau.

### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

117. Prin yw'r pwerau ar gyfer cyhoeddi canllawiau ar y materion hyn. Yn ôl Adran 117 o Fesur 2011 gellir cyhoeddi canllawiau ar gyfer hysbysebu swydd achlysurol drwy gyfethol, ond nid oes pŵer cyffredinol yn ymwneud â mynediad i wybodaeth. Argymhellir, fodd bynnag, y dylid cyhoeddi canllawiau ar gydymffurfio â'r darpariaethau hyn yn y Bil, er mwyn helpu cynghorau lleol i newid arferion sefydledig.

### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

118. Bydd cyflwyno gofyniad cyfreithiol i fynnu bod cynghorau lleol yn darparu gwybodaeth yn electronig, a bod modd cysylltu â hwy drwy ddulliau electronig, yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cysylltu â'r cyrff hyn ac yn ymwneud â'u cymuned leol. Er enghraifft, byddai'n ei gwneud yn haws i ysgolion lleol archwilio gwefannau wrth ddysgu am eu hardal leol.

119. Y manteision pwysicaf fydd galluogi'r cyhoedd i gyfathrebu â'r cyngor lleol a chael gafaél ar wybodaeth amdano. Mae hyn yn cael ei ystyried fwyfwy i fod y ffordd arferol o ddelio â chyrff lleol a chenedlaethol. Bydd hefyd yn annog pobl oedran gwaith neu ieuengach, neu'r rheini sy'n gaeth i'r tŷ neu'r gweithle am gyfran fawr o'u bywydau, i ddysgu beth sy'n digwydd ym maes llywodraeth leol a chymryd rhan. Dyma rywbeth na fyddent, o bosibl, yn gallu ei wneud fel arall.

120. Bydd angen digon o amser ar gynghorau tref a chymuned, yn ogystal â chanllawiau addas ar gydymffurfio â'r gofynion. Fel arall, mae perygl y gellid cymryd camau amhriodol ar frys i ddod o hyd i ffyrdd o ymateb i ddarpariaethau'r Mesur. Byddai modd osgoi hynny drwy weithio law yn llaw â chynghorau eraill, y prif gyngor neu sefydliadau sy'n cynrychioli cynghorau cymuned, fel Un Llais Cymru.

### Yr opsiwn a ffefrir

121. Dim ond Opsiwn 3 fydd yn arwain at sefyllfa sy'n golygu bod gwybodaeth am gynghorau tref a chymuned a'r dull o gyfathrebu â hwy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nid yw mwyach yn dderbyniol mai dim ond drwy ymweld â swyddfa'r cyngor neu ddarllen ei hysbysfwrdd y gellir cael gafaél ar wybodaeth am y cyrff hyn.

## **Pwyllgorau safonau rhanbarthol**

### Opsiwn 1 – gwneud dim

122. Roedd y Papur Gwyn 'Hybu Democratiaeth Leol' yn nodi amryw o fanteision i awdurdodau lleol pe byddent yn cydweithredu i sefydlu Pwyllgorau Safonau cyfun, yn seiliedig ar Batrwm Cydweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y manteision hyn yn cynnwys:

- Helpu i oresgyn problemau sy'n codi mewn rhai ardaloedd wrth ddod o hyd i bobl annibynnol addas i fod yn aelodau o bwyllgorau safonau;
- Gwneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau a darparu hyblygrwydd i ddelio ag achosion;
- Osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau a rhoi mwy o ffydd i'r cyhoedd yn y broses gwyno drwy greu pellter rhwng pwyllgorau a'r rhai sy'n cwyno / testun y cwynion;
- Hwyluso ymatebion cyson i gwynion ledled Cymru, yn enwedig os dilynir prosesau lleol i ddelio â chwynion;
- Hwyluso'r gwaith o ledaenu arferion da wrth hybu safonau ymddygiad uchel.

123. Mae'n ymddangos i Lywodraeth Cymru fod yna rwystrau deddfwriaethol sy'n atal awdurdodau lleol rhag sefydlu cyd-bwyllgorau o'r fath. Bydd y sefyllfa hon yn parhau os na wneir rhywbeth.

### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

124. O ystyried nad oes sail gyfreithiol i awdurdodau lleol ffurfio cyd-bwyllgorau safonau, nid yw hwn yn opsiwn ymarferol.

### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

125. Bydd deddfu yn dileu unrhyw amheuaeth o ran pwerau awdurdodau lleol i sefydlu cyd-bwyllgorau safonau, ac yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru ar gydweithio. Bydd hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gyfuno a rhannu adnoddau er mwyn cefnogi Pwyllgorau Safonau.

126. Nid oes risgiau cynhenid yn gysylltiedig â chaniatáu i awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn sefydlu cyd-bwyllgorau, o ran y ffordd y mae pwyllgorau o'r fath yn gweithredu. Ar y cyfan mae gan awdurdodau brofiad o redeg cyd-bwyllgorau mewn gwahanol feysydd gwasanaeth.

### Yr opsiwn a ffefrir

127. Ffefrir Opsiwn 3 gan nad oes unrhyw gefnogaeth statudol i sefydlu cyd-bwyllgorau fel arall. Mae hon yn ffordd synhwyrol o reoli adnoddau o fewn yr



agenda bresennol o gydweithio, os yw llwyth gwaith Pwyllgorau Safonau'r awdurdodau unigol yn caniatáu hynny.

## **Aelodau Llywyddol Prif Gyngorau**

### Opsiw 1 – gwneud dim

128. Mae cyngorau Caerdydd ac Abertawe wedi gofyn am ddefnyddio'r ddarpariaeth hon i wahanu rôl y Cadeirydd / Maer (neu 'Bennaeth Dinesig') oddi wrth swyddogaeth llywyddu cyfarfodydd y prif gyngor. Mae'r Frenhines wedi rhoi'r hawl i'r ddau gyngor yma ddefnyddio'r teitl Arglwydd Faer ar gyfer cadeirydd eu cyngorau (a Dirprwy Arglwydd Faer ar gyfer yr is-gadeirydd). Ar hyn o bryd mae'n ymddangos fod gwahanu rôl y pennaeth dinesig oddi wrth rôl llywyddu cyfarfodydd y cyngor yn groes i'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn hawl sy'n perthyn i'r Frenhines.
129. Mewn prif gyngor modern, fodd bynnag, gall fod rheswm da dros ddewis penodi un person (a dirprwy) i lywyddu cyfarfodydd y cyngor, ac un arall i weithredu fel pennaeth dinesig traddodiadol y cyngor a chyflawni dyletswyddau sy'n aml yn rhai allanol i'w gyfarfodydd.
130. Drwy wneud dim, felly, byddai un unigolyn (ac un dirprwy) yn dal i gyflawni'r swyddogaeth hon ac yn amlwg, nid yw'r cyngorau sydd wedi gofyn am y darpariaethau hyn yn ffafrio'r sefyllfa honno.

### Opsiw 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

131. Ni fyddai hyn yn opsiwn priodol oherwydd y ddeddfwriaeth bresennol a Hawl y Frenhines, fel y nodwyd eisoes.

### Opsiw 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

132. Bwriad y ddeddfwriaeth yw galluogi prif gyngor i ddefnyddio'r opsiwn o wahanu rôl y Pennaeth Dinesig (y 'Cadeirydd', y 'Maer' neu'r 'Arglwydd Faer') oddi wrth y gwaith o lywyddu cyfarfodydd y cyngor (yr 'Aelod Llywyddu') os yw'n dewis gwneud hynny.
133. Nid oes bwriad i ddirymu'r darpariaethau yn Neddf 1972 sy'n ymdrin â phenodi cadeirydd ac is-gadeirydd, a'r posibilrwydd fod prif gyngorau yn eu dynodi'n faer neu'n ddirprwy faer. Ond y bwriad yw eu galluogi i benodi gwahanol bobl o blith eu haelodau i fod yn Aelod Llywyddol y cyngor, os yw'r prif gyngor yn penderfynu ei bod yn briodol cael Maer i gyflawni swyddogaethau sy'n rhai dinesig yn unig.
134. Felly byddai rhwydd hynt i gyngorau fel Caerdydd ac Abertawe ddefnyddio'r opsiwn hwn, fel y maent eisoes wedi gofyn am wneud.
135. Ychydig iawn o risg sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon. Gallai rhai pobl ddadlau y gallai'r ddarpariaeth arwain at "israddio" rôl draddodiadol y Cadeirydd/Maer, ond mae caniatáu'r posibilrwydd fod cyngorau yn penodi

unigolion sydd â sgiliau cadeirio cydnabyddedig i swydd yr Aelod Llywyddol yn gwneud iawn am hyn.

#### Yr opsiwn a ffefrir

136. Mae'n amlwg ei bod o fantais i awdurdodau lleol allu datblygu cadeiryddion cyngor sy'n fedrus wrth eu gwaith. Mae hynny'n anodd os ydynt yn newid bob blwyddyn ar sail hynafedd, fel sy'n arfer digwydd, yn draddodiadol. Bydd Opsiwn 3 yn caniatáu i awdurdodau wahanu'r ddwy swyddogaeth, os dymunant.

### **Biliau Preifat**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

137. Byddai methu â galluogi awdurdodau lleol i hyrwyddo neu wrthwynebu biliau preifat yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn cynnal anghysondeb sef bod y Cynulliad bellach yn medru derbyn ac ystyried biliau preifat, ond nid rhai gan awdurdodau lleol. Byddai awdurdodau lleol ond yn medru hyrwyddo neu wrthwynebu biliau preifat yn Senedd y DU, hyd yn oed os byddai pwnc y Bil yn gyfrifoldeb i'r Cynulliad. Yn yr un modd, gallai bil preifat gael ei gyflwyno yn y Cynulliad y byddai gan awdurdodau lleol bryderon yn ei gylch, ond ni fyddent yn medru ei wrthwynebu.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

138. Nid yw hyn yn opsiwn. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i ddatrys y sefyllfa.

#### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

139. Mae hyn yn angenrheidiol fel y gall awdurdodau lleol hyrwyddo neu wrthwynebu biliau y mae ganddynt fuddiant cyfreithlon ynddynt ac sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Cynulliad. Serch hynny, mae'r Bil hefyd yn rhwystro awdurdodau lleol rhag defnyddio biliau preifat i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag adolygiadau o gymunedau a ffiniau neu adolygiadau etholiadol.

#### Yr opsiwn a ffefrir

140. Opsiwn 3 gan ei fod yn angenrheidiol fel y gall awdurdodau lleol hyrwyddo neu wrthwynebu biliau y mae ganddynt fuddiant cyfreithlon ynddynt ac sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Cynulliad.

## 8 Costau a buddion

141. Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad cost a budd o'r opsiynau a ddisgrifir ym Mhennod 7.

### **Diwygio'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

142. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

143. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

144. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r Comisiwn i'w helpu i gyflawni ei amcanion. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyllideb y Comisiwn ar gyfer y tair blynedd nesaf, fel a ganlyn:

Blynyddoedd Ariannol:

2012/2013 - £540,000

2013/2014 - £520,000

2014/2015 - £520,000

145. Disgwylir i'r Comisiwn gyfrannu at yr agenda effeithlonrwydd drwy weithio'n drefnus gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i nodi arbedion effeithlonrwydd posibl yn sgil rhannu gwasanaethau. Mae hyn i'w weld yng nghynllun gweithredu'r Comisiwn.

146. Nid oes unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau yn gysylltiedig â darpariaethau'r Bil, a defnyddir cyllidebau presennol i dalu unrhyw gostau sy'n codi. Dylai cyflwyno cylch parhaus o adolygiadau osgoi'r angen i'r Comisiwn gael cyllidebau sy'n codi ac yn gostwng, fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd diweddar.

147. Mae'r cynnydd mewn costau a allai godi'n cynnwys y canlynol:

(i) Y newid yn swyddogaethau'r Comisiwn a fyddai'n arwain at roi pwerau i'r Comisiwn lunio gorchmynion. Yn yr achos hwn gallai paratoi gorchmyn, ei wirio o safbwynt cyfreithiol a'i gyhoeddi gostio oddeutu £2,000. Disgwylir i'r Comisiwn ymdopi â hyn gan ddefnyddio'i gyllideb bresennol, fodd bynnag.

(ii) Er y gallai'r ddarpariaeth bod y Comisiwn yn dosbarthu copïau caled o'i adroddiadau drafft i Weinidogion Cymru, i'r rhai y mae'n rhaid iddo ymgynghori â hwy ac i'r prif gyngor neu gynghorau a effeithir ymddangos fel baich ychwanegol gan nad yw'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 1972, mae'r

Comisiwn eisoes yn gwneud hyn mewn gwirionedd, gan ddefnyddio'i gyllideb ei hun. Mae'r Comisiwn yn talu £1,000, ar gyfartaledd, am argraffu adroddiadau terfynol adolygiadau. Mae adroddiadau drafft yn tueddu i fod yn llai, felly £800 yw cost eu hargraffu, ar gyfartaledd. Rhyw £200 yw costau dosbarthu adroddiadau drafft ac adroddiadau terfynol. Mae'r ddarpariaeth y dylai adroddiadau drafft gael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn debyg o arwain at arbed costau.

(iii) Os yw'r Comisiwn yn cynnig newid ffin a bod hynny'n effeithio ar ardal heddlu, a bod Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref yn penderfynu newid ffin ardal yr heddlu, drwy orchymyn, fel bod y ddwy ffin yn cyfateb, mae hynny'r un fath â'r hyn sydd eisoes yn digwydd. Anaml iawn y newidir ardaloedd yr heddlu, a chyllideb adrannol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU sy'n ysgwyddo costau llunio unrhyw orchymynion.

(iv) Pe byddai'r Comisiwn yn codi tâl ar brif gyngor am gynnal adolygiad o ardal gymunedol, amcangyfrifir mai rhwng £8,000 a £15,000 yw'r gost, yn dibynnu ar faint yr awdurdod. Nid yw'r gost hon yn debyg o fod yn uwch na'r gost i'r awdurdod, pe byddai wedi cynnal yr adolygiad yn foddhaol ei hun.

(v) Nid oes unrhyw gost weinyddol ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwaith ychwanegol o ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn y mae angen i'r awdurdod lleol ei wneud, oherwydd caiff hyn ei gynnwys o fewn amser staff a chyllidebau presennol.

(vi) Yn olaf, byddai unrhyw gostau unwaith yn unig a allai godi o ganlyniad i newid enw'r Comisiwn, sy'n debygol o fod yn uwch na £5,000, yn dod yn rhan o'r trafodaethau blynyddol ynglŷn â'r gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn.

(vii) Gan gyfeirio at y ddarpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau gynnal adolygiadau bob deng mlynedd, bydd cynnydd bychan yn y gost i'r prif gynghorau. Fel y nodir yn (iv) amcangyfrifir mai'r gost gyfartalog am gynnal adolygiad o gymunedau yw £12,000, sy'n golygu gwario £12,000 bob deng mlynedd yn lle bob pymtheng mlynedd. O gyfrif hyn fesul blwyddyn mae hwn yn gynydd cyfartalog o oddeutu £400 y flwyddyn i bob prif gyngor, gan fod adolygiad o gymunedau yn cwmpasu holl ardal y prif gyngor. Gan mai cynnydd bach iawn yw hwn y flwyddyn, disgwylir y bydd yn cael ei gynnwys yng nghyllidebau presennol y cynghorau.

## **Pwerau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

### Opsiw 1 – gwneud dim

148. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### Opsiw 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

149. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

150. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno'r darpariaethau hyn. Câi amser staff a chyllidebau presennol eu defnyddio i dalu am gwblhau unrhyw waith gweinyddol ychwanegol sydd ei angen i gael gafael ar wybodaeth am y tâl a dderbyniodd cynghorwyr unigol am gyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. £50,000 yw cyllideb flynyddol y Panel ar hyn o bryd. Amlinellir manteision yr opsiwn hwn uchod.

### **Newidiadau i rai pwyllgorau cyngor**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

151. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

152. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

153. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig hyn. Mae'r newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu profiad ymarferol llywodraeth leol o weithredu Mesur 2011.

### **Mynediad i wybodaeth – cynghorau tref a chymuned**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

154. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

155. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

156. Gellid dadlau bod costau sylweddol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon, yn enwedig wrth sefydlu gwefan unigol. Ond nid yw hyn yn wir, o angenrheidrwydd. Mae amryw o gynghorau tref a chymuned eisoes wedi sefydlu gwefannau a ffyrdd o gysylltu â hwy'n electronig. Dylid cofio bod modd gwneud iawn am y costau, drwy arbed costau postio, papur ysgrifennu ac ati, ac nid yw'n debygol y bydd angen gwario llawer yn y dyfodol. Wrth gwrs, os nad oes gan gyngor cymuned offer cyfrifiadurol addas byddai angen talu am ei brynu, a thalu am unrhyw hyfforddiant angenrheidiol. Gallai'r costau cychwynnol fod hyd at £1,000 i bob Cyngor, ond mae'n dra phosibl y gallent fod yn llai. Mae nifer cynyddol o gynghorau cymuned yn mynd ati i sefydlu gwefannau o'u gwirfodd. Amcangyfrifir

nad oes gan hyd at 350 o gynghorau cymuned wefan ar hyn o bryd, felly gallai'r costau cychwynnol fod oddeutu £350,000.

157. Mae'n bur debygol, fodd bynnag, y bydd cynghorau sydd heb wefan ar hyn o bryd yn cydweithredu â chynghorau cyfagos, ag Un Llais Cymru neu â'u prif gyngor er mwyn lleihau, neu hyd yn oed ddiddymu'r costau hyn.
158. Mae yna o leiaf un sefydliad sy'n cynnig creu gwefannau i gynghorau cymuned heb godi unrhyw dâl.
159. Os yw'r costau yn rhy feichus i'r cynghorau cymuned, mae sawl opsiwn ar gael iddynt, sef:
- 1 – Cydweithio â chynghorau eraill yn yr ardal i sefydlu gwefannau gyda'i gilydd;
  - 2 – Dangos gwybodaeth amdanynt ar wefannau a sefydlwyd eisoes gan brif gynghorau, yn hytrach na sefydlu gwefan newydd unigol; neu
  - 3 – Defnyddio sefydliadau fel Un Llais Cymru, sydd eisoes yn darparu gwybodaeth am rai cynghorau cymuned, yn darparu cefnogaeth neu'n arddangos gwybodaeth.
160. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu gweithio gyda'r cynghorau cymuned a'u sefydliadau i baratoi canllawiau er mwyn nodi dulliau cost effeithiol o weithredu ac edrych ar y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu'r polisi hwn, drwy gydweithio â'i gilydd neu drwy gydweithio â phrif gynghorau.
161. Bydd costau parhaus cynnal gwefan yn amrywio yn ôl pa mor soffistigedig yw'r safle. Er enghraifft, mae Cyngor Tref y Barri, sy'n gwasanaethu cymuned fwyaf Cymru, yn neilltuo £4,000 yn ei gyllideb ar gyfer cynnal ei wefan. Bydd y ffigur hwn hefyd yn cynnwys y costau o gyhoeddi cofrestru buddiannau aelodau'r cynghorau.
162. Fel y nodwyd eisoes, amcangyfrifir nad oes gan hyd at 350 o gynghorau cymuned wefan ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y gallai gostio £1,000 y flwyddyn i bob cyngor gynnal gwefan sylfaenol, sy'n gwneud cyfanswm o £350,000 y flwyddyn i'r 350 o gynghorau gyda'i gilydd. Mae angen gwrthbwysu hyn â'r arbedion posibl a allai ddeillio gan na fyddai angen papurau a chopiau caled, a gellid gostwng y gost yn sylweddol drwy rannu cyfleusterau.

### **Pwyllgorau safonau rhanbarthol**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

163. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

164. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

165. Mae posibilrwydd y gallai'r costau teithio a chynhaliaeth fod yn uwch ar gyfer pwyllgorau sy'n gwasanaethu ardal ddaearyddol fwy. Dylid gallu arbed rhywfaint o arian, fodd bynnag, gan na fyddai angen cymaint o aelodau o Bwyllgorau Safonau drwyddi draw. Câi oddeutu £1,000 y pen ei arbed bob blwyddyn drwy gael llai o aelodau o Bwyllgorau Safonau. Mae posibilrwydd hefyd y byddai awdurdodau lleol yn gwneud defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau drwy sefydlu cyd-bwyllgorau safonau. Mae hyn yn cynnwys mwy o hyblygrwydd wrth ystyried cwynion yn erbyn aelodau, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau a chynyddu hyder y cyhoedd yr un pryd. Felly, ni ragwelir bod unrhyw gostau ychwanegol net yn gysylltiedig â'r darpariaethau hyn.

### **Aelodau Llywyddol Prif Gynghorau**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

166. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

167. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

168. Ni ragwelir bod unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r pwerau hyn. Y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol fyddai'n penderfynu ar unrhyw gyflogau uwch ar gyfer y 'Cadeirydd' a'r 'Aelod Llywyddol', ac yna câi'r swm ei reoli o fewn cyllideb y prif gyngor.

### **Biliau Preifat**

#### Opsiwn 1 – gwneud dim

169. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 2 – defnyddio canllawiau neu bwerau eilaidd presennol

170. Nid oes unrhyw gostau na buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### Opsiwn 3 – cyflwyno Bil i gyflawni'r amcanion polisi

171. Yn unol â Rheol Sefydlog 26A y Cynulliad, mae'r Llywydd yn pennu ffi sydd i'w thalu gan hyrwyddwr bil preifat. Mae'r fffioedd cyfatebol yn Senedd y DU tua £5,000. Hefyd, mae gofyn i'r hyrwyddwr dalu eu costau cyfreithiol. Gallai fod costau gweinyddol i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru nad oes modd eu mesur ymlaen llaw.

## 9 Asesu'r Gystadleuaeth

172. Ni fydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar fusnesau, ar elusennau nac/neu ar y sector gwirfoddol. Felly nid oes angen defnyddio prawf hidlo'r gystadleuaeth yn yr achos hwn.



## 10 Adolygu ar ôl gweithredu

173. Cynhelir cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn i fonitro'r modd y mae swyddogaethau a diwygiadau'r Comisiwn, sy'n cael eu cyflwyno drwy'r Bil hwn, yn cael eu gweithredu.
174. Mae'n rhaid i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol roi copi o bob adroddiad a gynhyrchir ganddo i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt adolygu'r ffordd y mae'r Panel yn defnyddio'r hyblygrwydd y mae'r Bil hwn yn ei roi iddo.
175. Ni fyddai'r trefniadau newydd ar gyfer pwyllgorau cynghorau, sy'n cael eu cyflwyno yn sgil y Bil hwn, yn cael eu hadolygu'n systematig. Gallai Swyddfa Archwilio Cymru dynnu sylw at unrhyw anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gweithdrefnau newydd, fodd bynnag, wrth adolygu'r ffordd y mae'r cynghorau yn gweithredu.
176. Byddai'r ffordd y mae'r cynghorau tref a chymuned yn gweithredu'r cynigion ar gyfer mynediad i wybodaeth yn cael ei adolygu, a hynny'n rhannol drwy gronfa ddata Llywodraeth Cymru ei hun o fanylion cyswllt cynghorau cymuned, a chwiliadau o'r rhyngrwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i ategu hynny.
177. Ni fyddai'r graddau y bydd awdurdod lleol yn manteisio ar y cyfleuster i greu Pwyllgorau Safonau rhanbarthol/ar y cyd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ond byddai'n hawdd monitro hyn, pe byddai angen. Dylid nodi hefyd fod rhaid i bob Pwyllgor Safonau hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'i Gylch Gorchwyl.
178. Bydd awdurdodau lleol unigol yn penderfynu a ydynt am fanteisio ar y cyfle i wahanu swyddogaethau eu pennaeth dinesig oddi wrth swyddogaethau llywyddu cyfarfodydd, ac ni fyddai angen adolygu hynny'n gyson.

## RHAN 3 – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

179. Mae'r Bil hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

1. Swyddogaethau a strwythur y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.
2. Gweithdrefn a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
3. Trefniadau cyfansoddiadol amryw o bwyllgorau cynghorau.
4. Mynediad i wybodaeth yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned.
5. Y ffordd y mae Pwyllgorau Safonau awdurdodau lleol yn gweithredu.

Nid oes cysylltiad arwyddocaol rhwng yr un o'r darpariaethau hyn a materion Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

180. Dilynir proses Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus o hyd wrth wneud penodiadau i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Wrth recriwtio'n ddiweddar, gwnaed defnydd llawn o gyfleoedd i ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol, a byddai disgwyl i hyn barhau.

181. Bydd ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am gynghorau tref a chymuned yn helpu unigolion sy'n cael trafferth symud o gwmpas neu sy'n gaeth i'r tŷ am unrhyw reswm arall, i gael gwybodaeth am eu cyngor lleol ar y rhyngwyd.

182. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae perthnasedd y Bil hwn i'r meysydd cydraddoldeb yn **isel**.

## RHAN 4 – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

183. Nid oes goblygiadau i'r un o ddarpariaethau'r Bil o ran hybu'r Gymraeg. Wrth ddirymu rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth bresennol y dylai un o'r Comisiynwyr allu siarad Cymraeg yn cael ei ddileu ac nid yw'n cael ei ailadrodd yn y Bil.
184. Mae'r gofyniad y dylai o leiaf un aelod allu siarad Cymraeg yn adlewyrchu'r cyfnod cyn i'r Gymraeg gael ei hamddiffyn yn sylweddol trwy ddeddfwriaeth, a chyn bod cyfleusterau cyfieithu ar gael yn rhwydd, er enghraifft. Yn lle hynny, dylid penodi aelodau'r Comisiwn yn unol â chynllun iaith Llywodraeth Cymru<sup>6</sup> ('y cynllun iaith'), o ran penodiadau cyhoeddus. Mae adran 7.3 o'r cynllun iaith yn ymdrin â'r angen i benodi aelodau Cymraeg eu hiaith, a'r angen i fyrddau cyrff cyhoeddus ddeall y materion sy'n effeithio ar y Gymraeg. Wrth benodi aelodau, bydd unrhyw safonau iaith Gymraeg perthnasol a orfodir ar Weinidogion Cymru yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, hefyd yn cael eu hystyried.

---

<sup>6</sup> Cynllun Iaith Gymraeg 2011 – 2016, cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011. Gallwch weld y manylion yn [www.cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/?lang=cy](http://www.cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/?lang=cy)

# **ATODIAD A - NODIADAU ESBONIADOL**

## Cyflwyniad

- 1 Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Tachwedd 2012.
- 2 Mae Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru wedi eu llunio i helpu'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno drwy roi gwybodaeth amdano. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Bil drafft ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3 Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

## **Sylwebaeth ar yr Adrannau**

### **Rhan 1 – Cyflwyniad**

#### **Adran 1 – Trosolwg**

- 4 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau allweddol y Bil a'r hyn y mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni. Mae 74 o adrannau, 6 Rhan a 3 Atodlen i'r Bil.

### **Rhan 2 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

#### **Adran 2 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

- 5 Mae'r adran hon yn newid enw'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn").

#### **Adran 3 – Statws**

- 6 Mae'r adran hon yn egluro nad corff i'r Goron yw'r Comisiwn.

#### **Adrannau 4 a 5 – Aelodaeth; Deiliadaeth**

- 7 Mae'r adrannau hyn yn darparu mai aelodau'r Comisiwn fydd y cadeirydd, y dirprwy gadeirydd a hyd at dri aelod arall, i'w penodi ar delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru. Pennir deiliadaeth aelod o'r Comisiwn gan delerau ac amodau ei benodiad.

## **Adrannau 6 a 7 – Trafodion; Y sêl a dilysrwydd dogfennau**

- 8 Mae'r adrannau hyn yn pennu cworwm o dri ar gyfer cyfarfodydd o'r Comisiwn ac y caiff y Comisiwn reoleiddio ei weithdrefn ei hun.
- 9 Caniateir hefyd i'r Comisiwn gael sêl i'w defnyddio ar ddogfennau a dilysir y defnydd o'r sêl drwy lofnod aelod o'r Comisiwn neu lofnod person arall sydd wedi ei awdurdodi gan y Comisiwn at y diben hwn.

## **Adran 8 – Prif weithredwr**

- 10 Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi prif weithredwr y Comisiwn (yn hytrach nag Ysgrifennydd a oedd yn ofynnol ar gyfer y Comisiwn blaenorol) a phenderfynu ar ei delerau ac amodau, ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn. Bydd gan y Prif Weithredwr yr un swyddogaethau â'r Ysgrifennydd blaenorol. Cyn i Weinidogion Cymru benodi prif weithredwr, mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â'r Comisiwn.

## **Adran 9 – Staff Eraill**

- 11 Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i gyflogi staff a phenderfynu ar eu tâl a'u telerau ac amodau. Cyn penodi staff a phenderfynu ar y tâl, y pensiynau, y lwfansau a'r treuliau sy'n daladwy, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

## **Adran 10 – Arbenigwyr**

- 12 Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i benodi cynghorwyr arbenigol i'w gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau. Cyn penodi arbenigwr a phenderfynu ar y tâl, y lwfansau neu'r treuliau sy'n daladwy, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

## **Adran 11 – Comisiynwyr cynorthwyol**

- 13 Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol i'w gynorthwyo i gynnal adolygiadau o ardaloedd llywodraeth leol neu drefniadau etholiadol neu i gadeirio ymchwiliadau lleol. Cyn i'r Comisiwn benodi comisiynydd cynorthwyol, mae'n ofynnol iddo ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Yn yr un modd, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.

## **Adrannau 12 i 14 – Pwerau; Cyfarwyddiadau Dirprwyo**

- 14 Mae gan y Comisiwn y pŵer i wneud unrhyw beth a fydd yn hwyluso'r gwaith o arfer swyddogaethau'r Comisiwn neu sy'n ffafriol i arfer ei swyddogaethau neu'n gysylltiedig â hynny. Fodd bynnag, mae adran 12 yn egluro na chaniateir i'r Comisiwn fenthyca arian, caffael tir neu eiddo (ac eithrio â chydsyniad Gweinidogol) na ffurfio a hyrwyddo cwmnïau.

- 15 Mae adran 13 yn darparu y caiff y Comisiwn ddirprwyo i aelodau unigol neu gomisiynwyr cynorthwyol ei swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau o ardaloedd neu drefniadau llywodraeth leol neu gynnal ymchwiliadau lleol, heb negyddu cyfrifoldeb cyffredinol y Comisiwn dros gyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig hyn.
- 16 Mae adran 14 yn rhoi pŵer cyfarwyddo cyffredinol o ran y Comisiwn i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru a chaiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd drwy ddyroddi cyfarwyddyd dilynol.

### **Adran 15 – Cyllido**

- 17 Mae'r adran hon yn pennu y darperir cyllid ar gyfer y Comisiwn drwy grantiau Gweinidogion Cymru. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar swm y grant yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau a bennir ganddynt.

### **Adran 16 – Swyddog cyfrifyddu**

- 18 Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi swyddog cyfrifyddu o blith staff y Comisiwn a chanddo gyfrifoldebau a bennir drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â threfniadau ariannol y Comisiwn.

### **Adrannau 17 i 20 – Archwilio; Pwyllgor Archwilio: aelodaeth; Cyfrifon ac archwilio allanol; Adroddiadau blynyddol**

- 19 Rhaid i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor archwilio i adolygu materion ariannol a llywodraethu corfforaethol y Comisiwn. Rhaid iddo gyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru. Rhaid i'r Comisiwn Archwilio gynnwys o leiaf ddau Gomisiynydd ac o leiaf un aelod lleyg.
- 20 Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn lunio datganiad blynyddol o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid i gynnwys y datganiad hwnnw gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r datganiad gael ei anfon at Weinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ac unwaith y bydd wedi ei ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol, rhaid ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad").
- 21 Cyn diwedd mis Tachwedd bob blwyddyn, rhaid i'r Comisiwn hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol a rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad hwnnw gerbron y Cynulliad hefyd.

### **RHAN 3 – Trefniadau ar gyfer llywodraeth leol**

- 22 Mae'r rhan hon yn disgrifio'r mathau o adolygiad o ardaloedd a threfniadau llywodraeth leol y caniateir eu cynnal ac yn manylu ar y weithdrefn i'w dilyn wrth

gynnal adolygiad. Mae hefyd yn ymdrin â'r modd o weithredu unrhyw argymhellion a wneir o ganlyniad i'r adolygiad.

### **Adran 21 – Dyletswydd y Comisiwn i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol**

- 23 Mae'r adran hon yn amlinellu swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn i adolygu trefniadau llywodraeth leol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau bod llywodraeth leol yn effeithiol ac yn gyfleus.

### **Adran 22 – Dyletswyddau prif gyngorau mewn perthynas ag ardal**

- 24 Mae'r adran hon yn amlinellu ei bod yn ofynnol i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (a ddiffinnir yn y Bil yn “brif gyngorau”) adolygu'r cymunedau yn ei ardal a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny a rhaid iddo lunio adroddiad ar y mater hwn o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 10 mlynedd. Rhaid iddo hefyd roi sylw i amserlen y Comisiwn ar gyfer cynnal adolygiadau etholiadol wrth benderfynu ar yr adeg briodol i gynnal yr adolygiad.
- 25 Wrth gyflawni'r ddyletswydd honno, ac wrth gynnal unrhyw adolygiadau o dan y Rhan honno, rhaid i bob prif gyngor geisio sicrhau bod llywodraeth leol yn effeithiol ac yn gyfleus.

### **Adran 23 – Adolygu ffiniau prif ardaloedd**

- 26 Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn, o'i wirfodd neu ar gais gan brif gyngor, i gynnal adolygiad o sir neu fwrdeistref sirol (a ddiffinnir yn y Bil yn “brif ardaloedd”). Yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Comisiwn wneud cynigion i Weinidogion Cymru. Yn ei gynigion, caiff y Comisiwn gynnig unrhyw newid i brif ardal sy'n briodol a newidiadau canlyniadol i ffiniau cymunedol neu drefniadau etholiadol o fewn cymunedau. Diffinnir y newidiadau posibl yn is-adran (4).
- 27 Yn unol â'r ddyletswydd o osodir o dan adran 21, dylai unrhyw argymhellion y mae'r Comisiwn yn eu gwneud mewn perthynas ag adolygiad o'r fath geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

### **Adran 24 – Adolygu prif ardaloedd yn dilyn gorchymyn tref newydd**

- 28 Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses i'w dilyn os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn Tref Newydd yn unol â Deddf Trefi Newydd 1981. O dan yr amgylchiad hwnnw, rhaid i'r Comisiwn, ar ôl cael hysbysiad oddi wrth Weinidogion Cymru am y Gorchymyn Tref Newydd, gynnal adolygiad yn unol â darpariaethau adran 23 o'r Bil o unrhyw brif ardaloedd a bennir yn hysbysiad Gweinidogion Cymru.

### **Adran 25 – Adolygu ffiniau cymuned gan brif gyngor**

- 29 Mae adran 25 yn darparu y caiff prif gyngor benderfynu cynnal adolygiad o gymuned o'i wirfodd neu ar gais cyngor cymuned neu gyfarfod cymunedol. Fodd bynnag, rhaid i'r prif gyngor beidio â chynnal adolygiad ar gais cyngor

cymuned neu gyfarfod cymunedol os yw'r prif gyngor o'r farn y byddai cynnal yr adolygiad hwnnw yn ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

- 30 Yn dilyn adolygiad o'r fath, dylai'r prif gyngor anfon adroddiad i'r Comisiwn gydag argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned ac unrhyw effaith o ganlyniad i hynny ar unrhyw gynghorau cymuned neu ardaloedd etholiadol. Yn unol â'r ddyletswydd a osodir gan adran 22, rhaid i unrhyw argymhellion a wneir gan y Cyngor sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- 31 Caiff prif gyngor a'r Comisiwn gytuno i'r cyngor ddirprwyo ei swyddogaethau o gynnal adolygiadau o gymunedau i'r Comisiwn. Mae unrhyw drefniant o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y cytunir arnynt rhwng y ddau barti.

### **Adran 26 – Adolygu ffiniau cymuned gan y Comisiwn**

- 32 Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i gynnal adolygiad o gymuned o dan amgylchiadau penodol, sef: os bydd prif gyngor yn gofyn iddo ei gynnal ar ei ran; os nad yw'n fodlon ar yr adroddiad a roddwyd iddo gan brif gyngor am resymau y manylir arnynt yn adran 26(2), neu os bydd prif gyngor wedi methu â chynnal adolygiad o'r fath yn unol â chyfarwyddyd a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru.
- 33 Rhaid i'r Comisiwn anfon at Weinidogion Cymru unrhyw argymhellion y mae'n eu gwneud mewn perthynas ag adolygiad o'r fath, a all gynnwys newidiadau i ffiniau cymuned a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned neu ardaloedd etholiadol. Mae'r adran hefyd yn disgrifio'r amgylchiadau pan all y Comisiwn adennill costau oddi wrth y prif gyngor.

### **Adran 27 – Adolygu siroedd wedi eu cadw**

- 34 Mae'r adran hon yn darparu y caiff y Comisiwn gynnal adolygiad o sir wedi ei chadw neu siroedd wedi eu cadw. Wrth wneud hynny, caiff y Comisiwn argymhell newidiadau i ardal y sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, wrth ystyried a all newidiadau i ardal y sir wedi ei chadw fod yn briodol, roi sylw i'r dibenion dros gadw'r siroedd sydd wedi eu cadw.
- 35 Nid yw siroedd wedi eu cadw yn awdurdodau lleol ond yn ardaloedd, yn seiliedig i raddau helaeth ar ardaloedd awdurdodau sirol Cymru cyn 1996, a ddefnyddir at ddibenion gweinyddol penodol e.e. yr Arglwydd Raglawiaid.

### **Adran 28 – Adolygu ffiniau tua'r môr**

- 36 Mae adran 28 yn galluogi'r Comisiwn i adolygu ffin llywodraeth leol sy'n gorwedd o dan y môr ac nad yw'n cydffinio â ffin llywodraeth leol arall, a chyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru os yw'n teimlo y dylai'r ffin gael ei newid.



## **Adran 29 – Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal**

- 37 Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gynnal adolygiad etholiadol o bob prif ardal o leiaf bob deng mlynedd, er y gallai benderfynu, ar gais cyngor neu o'i wirfodd, gynnal un unrhyw bryd.
- 38 Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw adroddiad gael ei gyhoeddi o fewn 9 mis i etholiad cyngor arferol. Yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Comisiwn anfon adroddiad at Weinidogion Cymru.
- 39 Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn anfon ei amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiadau etholiadol at Weinidogion Cymru.

## **Adran 30 – Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal**

- 40 Rhaid i'r Comisiwn, wrth iddo ystyried a fydd yn gwneud argymhellion ynghylch newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal, wneud ymdrech i sicrhau bod nifer yr etholwyr a gynrychiolir gan bob cynghorydd mewn prif gyngor mor agos â phosibl at fod yr un nifer. Dylid cydnabod hefyd yr angen i wneud cynigion sy'n gyson â'r angen i sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, bod gan adrannau etholiadol ffiniau cydnabyddedig a bod y cwllwm cymunedol yn cael ei barchu.

## **Adrannau 31 a 32 – Adolygu trefniadau etholiadol i gymunedau gan brif gyngor; Adolygu trefniadau etholiadol i gymunedau gan y Comisiwn**

- 41 Mae'r adrannau hyn yn darparu y caiff prif gyngor gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol cymunedau o'i wirfodd neu ar gais cyngor cymuned neu o leiaf 30 o etholwyr mewn cymuned. Dylid darllen hyn ar y cyd â'r ddyletswydd yn adran 22 sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor adolygu ei ardal.
- 42 Caiff y Comisiwn (yn hytrach na'r prif gyngor) gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o dan amgylchiadau penodol, sef: os gofynnir iddo gynnal adolygiad gan y prif gyngor, cyngor cymuned neu 30 o etholwyr mewn cymuned; os bydd prif gyngor wedi methu â chyflawni cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r fath. Pan fo'r Comisiwn wedi cynnal adolygiad am fod prif gyngor wedi methu â gwneud hynny, caiff adennill y gost oddi wrth y prif gyngor.

## **Adran 33 – Ystyriaethau ar gyfer adolygu trefniadau etholiadol cymuned**

- 43 Mae'r adran hon yn darparu, pan fo prif gyngor neu'r Comisiwn yn ystyried gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol cymuned, y dylid ystyried a ddylid rhannu cymuned yn wardiau cymuned a hefyd ddsbarthiad priodol etholwyr yn y wardiau hynny.

## Pennod 4 – Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau llywodraeth leol

- 44 Mae'r bennod hon yn manylu ar y weithdrefn o ran ymgynghori a chyhoeddi adroddiadau i'w mabwysiadu ar gyfer adolygiadau.

### **Adran 34 – Y weithdrefn ragadolygu**

- 45 Cyn dechrau adolygiad, rhaid i'r Comisiwn neu'r prif gyngor sy'n cynnal yr adolygiad hysbysu'r ymgynghoreion statudol (a restrir yn yr adran) bod adolygiad ar fin digwydd.
- 46 Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu'r ymgynghoreion gorfodol am y weithdrefn a'r fethodoleg y mae'n mynd i'w dilyn wrth gynnal adolygiad etholiadol o brif ardal. Yn benodol, bydd hyn yn ymdrin â'i ddull o benderfynu ar nifer priodol yr aelodau ar gyfer cyngor yr ardal honno.

### **Adran 35 – Ymgynghori ac ymchwilio**

- 47 Mae adran 35 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn neu'r prif gyngor sy'n cynnal yr adolygiad (y cyfeirir ato yn y Bil fel "y corff adolygu") ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol a chynnal yr ymchwiliadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- 48 Yn dilyn y broses ymgynghori, rhaid i'r corff adolygu lunio adroddiad drafft ac ymgynghori arno am rhwng chwech a deuddeg wythnos a rhaid i gopi fod ar gael i edrych arno yn swyddfeydd unrhyw brif gyngor ar gyfer yr ardal a adolygir.

### **Adran 36 – Adrodd ar yr adolygiad**

- 49 Mae adran 36 yn darparu'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar adolygiad gan gorff adolygu yn dilyn y cyfnod ymgynghori o dan adran 35. Unwaith y bydd y corff adolygu wedi ystyried y sylwadau sy'n dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, yna rhaid iddo lunio adroddiad pellach. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch yr hyn y dylai'r adroddiad pellach ei gynnwys, gan ddibynnu ar y math o adolygiad a gynhelir.
- 50 Yna rhaid i'r corff adolygu gyflwyno'r adroddiad a'i argymhelliad i'r person neu'r corff sydd â'r pŵer i weithredu'r argymhellion (ac eithrio pan y corff adolygu ei hun yw'r awdurdod gweithredu). Rhaid iddo hefyd sicrhau y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi'n electronig a'i fod ar gael i'r cyhoedd edrych arno am gyfnod o chwe wythnos o leiaf gan ddechrau ar y dyddiad cyhoeddi.
- 51 Rhaid i'r corff adolygu sicrhau hefyd y caiff copi o'r adroddiad pellach ei anfon at yr ymgynghoreion gorfodol, yr Arolwg Ordnans a Gweinidogion Cymru. Rhaid hysbysu unrhyw berson arall sydd wedi cyflwyno tystiolaeth neu wneud sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad o dan adran 35 o'r Bil sut i gael gafael ar gopi.

### **Adran 37 – Gweithredu gan Weinidogion Cymru**

- 52 Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael adroddiad ar newidiadau i ffiniau oddi wrth y corff adolygu, wneud gorchymyn sy'n unol â'r argymhellion neu sy'n eu haddasu. Fel arall, gallai Gweinidogion Cymru benderfynu peidio â gweithredu yng ngoleuni'r adroddiad.
- 53 Rhaid bod o leiaf 6 wythnos rhwng y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael adroddiad a'r dyddiad y gwneir unrhyw orchymyn.

### **Adran 38 – Gweithredu newid i ffin cymuned**

- 54 Mae'r adran hon yn darparu y caiff y Comisiwn, pan fydd yn cael adroddiad ar adolygiad o ffin cymuned oddi wrth brif gyngor, wneud gorchymyn sy'n gweithredu'r argymhellion fel y maent, neu gydag addasiadau y cytunir arnynt â'r prif gyngor. Ni chaniateir gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y brif ardal heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, os na all y Comisiwn a'r prif gyngor gytuno ar unrhyw addasiadau arfaethedig, neu os yw'r Comisiwn o'r farn na ddylai weithredu unrhyw un neu ragor o argymhellion y cyngor, caiff gynnal ei adolygiad ei hun.
- 55 Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei argymhellion a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru.

### **Adran 39 – Gweithredu newid i drefniadau etholiadol cymuned**

- 56 Mae'r adran hon yn darparu y caiff prif gyngor wneud gorchymyn sy'n gweithredu newidiadau i drefniadau etholiadol cymuned. Caiff y newidiadau fod yn rhai yr oedd y prif gyngor wedi cyflwyno adroddiad arnynt o dan adran 26 neu'r rhai a argymhellwyd gan y Comisiwn o dan adran 32. Ni chaniateir gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y brif ardal heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. O dan amgylchiadau penodol, caiff y Comisiwn ofyn i Weinidogion Cymru weithredu ei argymhellion.

### **Adran 40 – Gorchymynion gweithredu: darpariaeth ganlyniadol**

- 57 Mae adran 40 yn darparu y caniateir i orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu brif gyngor, yn dilyn adolygiad, wneud unrhyw ddarpariaethau canlyniadol eraill ar y newidiadau a gyflwynir sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy neu ei farn ef. Gallai hyn gynnwys newid enw ardal, neilltuo cynghorwyr presennol i ardaloedd newydd neu ardaloedd sydd wedi eu newid a nifer a dosbarthiad y cynghorwyr mewn ardal newydd neu ardal sydd wedi ei newid.

#### **Adran 41 – Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol gyffredinol**

- 58 Caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 41, wneud rheoliadau (o gymhwysiad cyffredinol) sy'n darparu ar gyfer materion cysylltiedig, canlyniadol etc er mwyn rhoi effaith lawn i orchmynion adolygu: er enghraifft, trosglwyddo staff, eiddo a rhwymedigaethau.

#### **Adran 42 – Trosglwyddo staff**

- 59 Mae adran 42 yn darparu bod rhaid i unrhyw achosion o drosglwyddo staff beidio ag arwain at ddirywiad yn eu telerau ac amodau gwaith.

#### **Adran 43 – Amrywio a dirymu gorchmynion**

- 60 Mae adran 43 yn darparu gweithdrefn i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu brif gyngor amrywio neu ddirymu gorchymyn adolygu a chywiro camgymeriadau.

#### **Adran 44 – Cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid**

- 61 Mae adran 44 yn galluogi cyrff cyhoeddus y mae adolygiad yn effeithio arnynt i ymrwymo mewn cytundeb â chyrff cyhoeddus eraill ynghylch unrhyw achos o drosglwyddo eiddo ac unrhyw drefniadau ariannol sy'n codi o ganlyniad i newid yr ardal. Mae'n ofynnol i'r partïon i gytundeb o'r fath ymdrin ag unrhyw fethiant i gytuno drwy gymrodeddu.

#### **Adran 45 – Newid ardal heddlu**

- 62 Os ymddengys bod newid i ffiniau ardal heddlu yn ddymunol, fel rhan o adolygiad o ffiniau yn unol ag adran 23 o'r Bil, caiff y Comisiwn argymhell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y newid hwnnw drwy orchymyn. Byddai'r amgylchiad hwn yn codi pe bai newid i ffin sir yn golygu bod rhan o sir yn rhannol y tu mewn neu'r tu allan i ardal heddlu.
- 63 Gall gorchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol newid yr ardal heddlu fel bod ardal newydd o fewn ardal Comisiynydd Heddlu a Throsedd penodol. Byddai hefyd yn golygu bod modd cynnal etholiad newydd am Gomisiynydd pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu felly.

#### **Adran 46 – Rhychwant ffiniau tua'r môr**

- 64 Mae'r adran hon yn darparu bod cymunedau sy'n ffinio â'r môr yn ymestyn i farc distyll glannau'r môr a bod unrhyw groniant o'r môr yn ffurfio rhan o'r gymuned a'r sir sy'n ffinio â glannau'r môr.

#### **Adran 47 – Newid ffin yn dilyn newid cwrs dŵr**

- 65 Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn hefyd i newid ffin o ganlyniad i newid cwrs dŵr, ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn.

### **Adran 48 – Cyfarwyddiadau a chanllawiau ynghylch Rhan 3**

- 66 Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn a phrif gynghorau mewn perthynas ag adolygiadau o ardal llywodraeth leol a threfniadau etholiadol.
- 67 Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn a phrif gynghorau, wrth gynnal adolygiadau neu weithredu argymhellion, roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu dyroddi.

### **Adran 49 – Ymchwiliadau lleol**

- 68 Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn neu brif gyngor i drefnu ymchwiliad lleol yn gysylltiedig ag unrhyw adolygiad a gynhelir ganddo. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru neu brif gyngor i drefnu i ymchwiliad lleol gael ei gynnal pan ystyrir gwneud gorchymyn sy'n dirymu gorchymyn blaenorol. Caiff y person a benodir i gynnal yr ymchwiliad ei gwneud yn ofynnol i bersonau fod yn bresennol neu roi tystiolaeth ar lw.

## **Rhan 4 – Adolygiadau o aelodaeth cyrff cyhoeddus**

### **Adran 50 – Adolygiadau o gyrff cyhoeddus cymwys**

- 69 Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori, gyfarwyddo'r Comisiwn i adolygu aelodaeth cyrff cyhoeddus penodol. Gallai hyn gwmpasu nifer aelodau'r corff a'r priodoleddau a'r cymwysterau y dylent feddu arnynt. Ni fyddai'r pŵer yn cwmpasu awdurdodau lleol ac mae wedi ei gyfyngu fel arall i gyrff (a) y mae rhaid i'w haelodaeth gynnwys aelod neu benodai awdurdod lleol a (b) sy'n arfer swyddogaethau a roddwyd gan Ddeddf Cynulliad.
- 70 Yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru gan nodi unrhyw gynigion ar gyfer newid.

## **Rhan 5 – Newidiadau eraill i lywodraeth leol**

### **Adran 51 – Aelod llywyddol prif gyngor**

- 71 Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn caniatáu i brif gynghorau benodi "aelod llywyddol". Byddai "aelod llywyddol" yn gallu cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau cadeirydd cyngor a benderfynir gan y cyngor. Yn benodol, bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi cynghorau sy'n dymuno gwahanu'r swyddogaethau defodol a dinesig sy'n gysylltiedig â chadeirydd neu faer y cyngor oddi wrth y rhai sy'n llywyddu cyfarfodydd y cyngor.

- 72 Ni chaiff aelod o weithrediaeth y cyngor fod yr aelod llywyddol. Mater i'r prif gyngor ei benderfynu yw tymor y penodiad, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad na all ymestyn ar ôl etholiad nesaf y cyngor.
- 73 Caiff cyngor hefyd benodi dirprwy aelod llywyddol na chaniateir iddo fod yn aelod o'r weithrediaeth ychwaith.

#### **Adrannau 52 i 54 – Biliau Preifat**

- 74 Mae'r adrannau hyn yn galluogi prif gyngor i hyrwyddo Bil Preifat naill ai yn Senedd y Deyrnas Unedig neu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn galluogi cyngor cymuned a phrif gyngor i wrthwynebu Bil Preifat yn Senedd y Deyrnas Unedig neu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n atal prif gyngor rhag hyrwyddo Bil lleol sy'n ymwneud ag ardal llywodraeth leol neu strwythur gwleidyddol awdurdod lleol. Mae'n atal awdurdod lleol rhag gwneud taliadau i un o'i aelodau am weithredu fel cwnsler neu asiant fel rhan o'r broses honno.

#### **Adrannau 55 i 57 – Gwefannau cynghorau cymuned; Gofyniad i roi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig; Cyfarfodydd a thrafodion cymunedau**

- 75 Mae adran 55 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig ar wefan, gan gynnwys manylion aelodaeth a busnes y cyngor a gwneud darpariaeth i aelodau'r cyhoedd gysylltu â'r cyngor neu ei glerc yn electronig. Mae'r gofyniad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ddarostyngedig i reolau cyfrinachedd arferol.
- 76 Rhaid i gyngor cymuned roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r mater hwn.
- 77 Mae adran 56 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig ar wefan hefyd.
- 78 Mae adran 57 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned gyhoeddi agendâu ac adroddiadau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod yn electronig ar wefan.

#### **Adran 58 – Cofrestrau buddiannau aelodau**

- 79 Mae'r adran hon yn darparu bod yn rhaid i gofrestrau buddiannau, y mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol eu cynnal o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gael eu cyhoeddi yn electronig.

#### **Adran 59 – Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd**

- 80 Mae'r adran hon yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn ehangu cwmpas pwyllgor gwasanaethau democrataidd fel y gall, ar gais yr awdurdod, adolygu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael i'r aelodau etholedig a'u telerau ac amodau.

### **Adran 60 – Pwyllgorau archwilio**

- 81 Mae adran 60 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn darparu bod pwyllgor archwilio awdurdod lleol yn un y mae rheolau cydbwysedd gwleidyddol (a nodir yn adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) yn gymwys iddo.

### **Adran 61 – Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau**

- 82 Mae adran 61 yn galluogi'r Panel, wrth iddo ystyried hawlogaeth i gael taliad penodol, i osod terfyn ar nifer y cynghorwyr y caniateir iddynt ei gael. Mae hyn yn cynyddu pŵer presennol y Panel i bennu terfyn ar gyfran y cynghorwyr y caniateir iddynt gael taliad penodol.

### **Adran 62 – Awdurdodau perthnasol**

- 83 Mae adran 62 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu at y cyrff cyhoeddus y dylai'r Panel ystyried eu tâl. Rhaid i unrhyw gorff ychwanegol o'r fath fod yn un y mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb drosto ac sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol yn ei aelodaeth. Mae'r pŵer hwn i'w gyflawni drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

### **Adran 63 – Adroddiadau blynyddol dilynol**

- 84 Mae adran 63 yn newid y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r Panel lunio ei adroddiad blynyddol o 31 Rhagfyr i 28 Chwefror. Mae hyn yn cael effaith o leihau'r amser rhwng cyhoeddi adroddiad a'i weithredu y mis Ebrill canlynol. Bydd y darpariaethau hefyd yn galluogi'r Panel i benderfynu pryd y bydd ei adroddiadau yn dod i rym ac i ôl-ddyddio ei benderfyniadau hyd at dri mis.

### **Adran 64 – Ymgynghori ar adroddiadau drafft**

- 85 Mae adran 64 yn darparu y byddai cyfnodau ymgynghori ar adroddiadau atodol drafft, sy'n 8 wythnos ar hyn o bryd, yn cael eu hamrywio i fod rhwng pedair ac wyth wythnos.

### **Adran 65 – Gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau**

- 86 Mae adran 65 yn darparu y caiff y Panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion am unrhyw incwm y mae eu haelodau yn ei gael oddi wrth gyrff cyhoeddus penodedig.

### **Adran 66 – Cyd-bwyllgorau safonau**

- 87 Mae adran 66 yn diwygio adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fel y caiff un neu ragor o awdurdodau perthnasol (h.y. sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru) sefydlu cyd-bwyllgor safonau. Rhaid i awdurdod sy'n ystyried sefydlu cyd-bwyllgor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

- 88 Mae adran 66 hefyd yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ddarparu bod rhaid i bwyllgor safonau, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

### **Adran 67 – Atgyfeirio achosion yn ymwneud ag ymddygiad**

- 89 Mae adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn ag ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau o awdurdodau lleol ac ystyriaeth pwyllgor safonau'r awdurdod lleol o'r materion hynny. Mae adran 67 yn diwygio adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu i swyddog monitro neu bwyllgor safonau un awdurdod gyfeirio mater i bwyllgor safonau awdurdod arall.

## **Rhan 6 – Darpariaethau amrywiol a chyffredinol**

- 90 Mae'r Rhan hon yn ymdrin â'r ddarpariaeth gyffredinol am y Bil. Yn benodol, mae'n:
- Galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall os oes angen i roi effaith i ddarpariaethau'r Bil hwn;
  - Esbonio'r weithdrefn ar gyfer gwneud darnau o is-ddeddfwriaeth o dan y Bil hwn;
  - Darparu ar gyfer y diffiniad o derminoleg a ddefnyddir yn y Bil cyfan a chyflwyno'r mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio yn Atodlen 3;
  - Cyflwyno Atodlenni 1 a 2 sy'n cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall a diddymiadau deddfwriaeth arall sy'n ofynnol i wneud i ddarpariaethau penodol gael effaith;
  - Ymdrin ag unrhyw adolygiad gan y Comisiwn neu brif gyngor sy'n mynd rhagddo ar yr adeg pryd y daw'r Bil i rym sydd i'w gwblhau o dan y ddeddfwriaeth flaenorol ac yn darparu arbediad i'r rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas ag adolygiadau barhau mewn grym hyd nes y gwneir rheoliadau newydd o dan y Bil;
  - Cynnwys darpariaeth ynghylch cychwyn adrannau o'r Bil;
  - Darparu teitl byr y Bil at ddibenion enwi.
- 91 Mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o brif ddarpariaethau'r Bil a mân ddiwygiadau perthnasol eraill. Yn benodol, mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiad i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 sy'n ychwanegu'r Comisiwn at yr awdurdodau rhestredig y mae gan yr ombwdsmon y cyfrifoldeb i ymchwilio i gwynion amdanynt.
- 92 Mae Atodlen 2 yn cynnwys y diddymiadau i ddeddfiadau eraill sy'n ofynnol er mwyn gweithredu darpariaethau'r Bil yn llawn. Mae hyn yn cynnwys diddymu'r cyfyngiad sy'n rhwystro aelodau cyfetholedig o bwyllgor neu is-bwyllgor rhag mynychu o bell.



## ATODIAD B

*Mae'r Atodiad hwn yn Saesneg yn unig oherwydd ei fod yn dyfynnu o adroddiad nad yw ar gael yn Gymraeg.*

### **Recommendations from the Mathias Review - An Independent Review into the electoral reports and electoral review processes as conducted by the Local Government Boundary Commission for Wales**

1. The Welsh Government should consider the approach it wishes to follow for future electoral reviews. If the Minister decides the priority is to keep electoral imbalances under control on a regular and systematic basis, the 1972 Act should be amended so that such reviews are undertaken on a rolling basis without regard to having all authorities reviewed in time for an electoral cycle.
2. If however, the Minister sees value in a more comprehensive review approach on the current cyclical basis, it should set out and monitor the Commission's delivery on an agreed and resourced programme. The Minister should also consider directing the Commission to use its powers of interim review to deal with particular electoral imbalances.
3. As a matter of policy, the Commission should consult fully on the approach it proposes to take on electoral reviews, as a starting point to the review programme. The consultation should include the steps it proposes to take towards assessment of council size, the balance between the different criteria, the need for any increase in multi-member divisions, and the responses it expects from key stakeholders.
4. Subject to the previous recommendation, the Commission should consult on an appropriate methodology for assessing the number of councillors for each authority. It should include consideration of the approaches taken in Scotland and England. Whatever process is adopted, it should be clear and transparent to all stakeholders.
5. The Welsh Government should abandon the requirement laid down in section 4(c) of the Directions to the Local Government Boundary Commission for Wales 2009 for a single councillor to elector ratio. It should be replaced by the process outlined in the previous recommendation for a transparent approach to assessing council size.
6. The Commission should ensure there is a clear audit trail, based on minutes of decisions, legal advice and public consultation, for its approach to determining the balance of the criteria they propose to implement under Schedule 11 1A(5) of the 1972 Act. It should ensure that appropriate documentation exists to demonstrate both the way it dealt with the general criteria and how they were applied in each review.

7. The Commission should adopt an appropriate methodology for assessing the desirability of multi-member divisions in each authority, as required in section 3(1) of the Ministerial Directions 2009.
8. The Welsh Government should seek, as a priority, to amend the Local Government Act 1972 to remove paragraphs 5(c) and 5(d) of Schedule 11 relating to community councils.<sup>1</sup> The Commission should be given power to ward community areas for the purpose of creating electoral divisions.
9. The Welsh Government should consider removing the need for orders implementing community reviews to be made by Welsh Ministers. The Commission could be given an order-making power to implement community reviews, with a right of appeal to the Welsh Ministers.
10. The Welsh Government should review the structure, personnel and budget of the Commission in the light of the increasing commitments faced by the secretariat.
11. The Welsh Government should consider whether Ministerial Directions are a necessary addition to the requirements set out in an amended Act. While it would be sensible to retain the power to issue Directions to meet particular circumstances, it might in general be more practical, and potentially more flexible, for the Government and the Commission to conduct a public exchange of letters setting out the strategic direction of the review process.
12. As a matter of priority, the Welsh Government should appoint two new Commissioners with direct experience at a senior level of running elections or other local government experience at a corporate management level. In addition, the Government should consider exercising the power under paragraph 3(1) of Schedule 8 of the 1972 Act to appoint people with expert knowledge to advise and assist the work of the Commission.
13. The Commission should improve its assessment of the risks of not meeting the timetable set by the Government, and there should be a risk analysis on a review by review basis. The Commission should make regular assessments of the resources at its disposal to ensure they are sufficient to meet the timetable.
14. The Commission should engage with all 22 local authorities to ensure as far as possible that each of them puts forward electoral schemes for their own areas as part of the evidence that informs the Commission's preparation of draft proposals.
15. The Commission should review its communications strategy to ensure it engages more pro-actively with all stakeholders.

---

<sup>1</sup>“(c) every ward of a community council having a community council (whether separate or common) shall lie wholly within a single electoral division; and  
(d) every community which is not divided into community wards shall lie wholly within a single electoral division”